# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 12 MEHEFIN 2025 am 10:00 o'r gloch** | | **THURSDAY, 12 JUNE 2025 at 10:00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke 01248 752518** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies
Mr Brace Griffiths
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION CYFARFODYDD** (Tudalennau 1 - 14)

Cadarnhau cofnodion drafft cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6 Chwefror a 26 Chwefror 2025.

**3** **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 15 - 16)

Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**4** **DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 17 - 22)

Adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol.

**5** **CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)** (Tudalennau 23 - 26)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
ar gyfer Chwarter 4 o 2024/25

**6** **PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 27 - 44)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**7** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 45 - 56)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**8** **CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Mae'n arferol i adroddiad gael ei baratoi i'r Pwyllgor Safonau gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfnod rhwng y Pwyllgor Safonau ar 6 Chwefror 2025 a diwrnod cyhoeddi'r rhaglen hon, ni dderbyniwyd

unrhyw geisiadau. Ar y sail hon, nid oes adroddiad ynghlwm. Ar sail hyn, nid oes adroddiad wedi'i atodi.

**9** **DIWEDDARIAD AR FFORWM CENEDLAETHOL AR GYFER PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 57 - 58)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Safonau yng Nghymru.

**10** **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/2025** (Tudalennau 59 - 96)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn darparu adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor.

**11** **HYFFORDDIANT COD YMDDYGIAD AR GYFER Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 97 - 102)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn nodi manylion presenoldeb Cynghorwyr Tref a Chymuned mewn sesiynau hyfforddiant a drefnwyd gan y Pwyllgor yn Hydref 2024.

**12** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 103 - 104)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: "Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**13** **MATERION YMDDYGIAD** (Tudalennau 105 - 110)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn rhannu manylion am Hysbysiadau Penderfyniadau a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**14** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 111 - 112)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: "Penderfynu o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**15** **Y BROSES AR GYFER PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 113 - 144)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro er mwyn darparu manylion y broses i'w dilyn wrth benodi aelod annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2025.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Trefor Owen (Cadeirydd)<br><br>Mr T Rhys Davies<br>Mr Brace Griffiths<br>Mr John R Jones<br><br>**Yn Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br><br>**Yn Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (o 10:55am ymlaen) |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Pennaeth Democratiaeth (ar gyfer Eitem 4)<br>Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol (EP) (ar gyfer Eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Gill Murgatroyd<br>Y Cynghorydd Margaret M Roberts<br>Mrs Margaret Thomas (Cynghorydd Tref a Chymuned) |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni ddaeth yr un i law.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr Brace Griffiths yn Is-gadeirydd o blith aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau tan 14 Chwefror 2028 (y dyddiad y byddai tymor swydd yr Is- Gadeirydd blaenorol wedi dod i ben) neu tan ddiwedd tymor swydd Mr Griffiths, pa un bynnag a ddeuai gyntaf.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2024 yn gywir.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi derbyn cofnod gweithredu wedi'i ddiweddaru o faterion yn codi o'r cofnodion. Dywedodd y gweithredid ar yr argymhellion o'r cofnodion neu eu bod wedi’u rhoi ar waith.

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft cyfarfod eithriadol o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024 yn gywir.

## 4. GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan Bennaeth Democratiaeth ar y gwaith a wnaed o fewn y Gwasanaethau Democrataidd oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor hwn, a'r Cynllun Gwella a rannwyd gyda'r Pwyllgor ym mis Medi 2024. Roedd y Cynllun yn ymdrin â rhai materion democrataidd a godwyd yn dilyn adolygu Cofrestrau Buddiannau'r Aelodau.

Dywedodd Pennaeth Democratiaeth y gweithredwyd ar 15 o'r 20 cam gweithredu yn y Cynllun. O'r pump oedd yn weddill, roedd dau yn parhau ac nid oedd modd datrys dau ar hyn o bryd. Ychwanegwyd cam gweithredu ychwanegol at y rhai a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau, lle ‘roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud.

Roedd y ddau fater nad oeddynt wedi’u datrys yn ymwneud â meddalwedd *Modern.Gov*. Nid oedd gan y system ryngwyneb Cymraeg er mwyn cynnwys gwybodaeth am Gofrestrau Buddiannau, ac nid oedd, ychwaith, yn rhoi’r opsiwn i aelodau gwblhau datganiadau o ddiddordeb yn ystod cyfarfodydd ar-lein. O ran y mater cyntaf, gallai aelodau gwblhau'r Gofrestr yn Gymraeg neu’n Saesneg ac roeddynt wedi cael cynnig cymorth gan y gwasanaeth democrataidd i gyfieithu testunau. Yn ail, roedd staff wrth law i roi copïau electronig o ffurflenni i aelodau, yn ôl yr angen.

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn, hefyd, o'r adroddiad: -

- Byddai’r Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Hybrid yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.
- Byddai swyddog o Heddlu Gogledd Cymru yn dod i’r cyfarfod y mis hwn i gynghori aelodau ar ddiogelwch personol.
- Derbyniwyd 26 o adroddiadau blynyddol aelodau ar gyfer 2023/24. Byddai’r templed, wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2024/25, yn cael ei rannu gydag aelodau yn fuan. Rhaid oedd ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2025.
- Atgoffwyd aelodau i gofrestru datganiadau o ddiddordeb o fewn 28 diwrnod. Rhannwyd canllawiau, hefyd, ar y broses diweddaru'r cofrestrau ar-lein.
- Câi Arweinyddion Grŵp ddiweddariadau chwarterol ar hyfforddiant aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 5. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu (Adnoddau Dynol) ar y ddarpariaeth hyfforddi a datblygu a gynigiwyd i aelodau etholedig dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi fod 39 o sesiynau hyfforddi wedi'u cynnig I aelodau, o fis Ebrill 2023 hyd yn hyn, 24 yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Cyfeiriodd at y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2024/25 a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a dywedodd fod mwy o bwyslais wedi'i roi ar hyfforddiant mandadol yn ddiweddar, gan arwain at gynnydd yn nifer y sesiynau hyfforddi yr aethpwyd iddynt. Nodwyd bod 34 allan o 35 aelod wedi mynd am hyfforddiant Iechyd a Diogelwch. Cofnodwyd cynnydd, hefyd, mewn hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Diogelu Data. Yn ystod y cyfnod nesaf, byddid yn canolbwyntio ar Seiberddiogelwch, Diogelu a Lles.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, yn sgil eu holi, wedi cadarnhau nad oedd ganddynt ddarpariaeth hyfforddiant dwyieithog mewn perthynas â hyfforddi Arweinyddion Grŵp. Fodd bynnag, roedd trefniadau yn eu lle i Nia Gwynn Meacher gwblhau sesiynau dadfriffio Proffil DiSC gyda phob un o'r Arweinyddion Grŵp ac yna i Gwen Greaves, gynt o Hyfforddiant Glaslyn, arwain cyfres o sesiynau hyfforddi. Byddai'r ddau weithgaredd ar gael yn ddwyieithog, gyda dyddiadau i gytuno arnynt.

Nodwyd bod sesiynau hyfforddi rhithwir a hyfforddiant wedi'i recordio wedi'u cynnig i aelodau yn ogystal â sesiynau ystafell ddosbarth. At hyn,roedd fideos Iechyd a Diogelwch wedi'u rhannu gydag aelodau; rhywbeth oedd yn llwyddiant mawr.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 6. CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar gwynion chwarterol a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned, ar gyfer Chwarterau 1-3,2024/25.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod tair cwyn yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon. Roedd dwy wedi'u gwrthod, roedd y trydydd mater yn parhau ac wedi bod dan ymchwiliad ers dros flwyddyn.

Nodwyd bod pedair cwyn wedi'u cyflwyno i’r Ombwdsmon yn erbyn Cynghorwyr Sir am y cyfnod. Gwrthododd yr Ombwdsmon y gŵyn gyntaf a'r ail gŵyn ac atgoffodd yr ail achwynydd o rwymedigaeth yr unigolyn i ddatgan buddiant o dan y Cod Ymddygiad. Roedd y trydydd mater wedi bod dan ymchwiliad ers mis Chwefror 2024 ac yn parhau. Roedd yr ymchwiliad i'r pedwerydd mater wedi dod i ben yn dilyn ymchwiliad a barodd 18 mis. Yn hyn o beth, roedd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau.

Mynegodd y Pwyllgor Safonau bryder bod proses gwynion yr Ombwdsmon yn hir. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod o Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau yr aeth iddo’n ddiweddar, lle roedd yr Ombwdsmon wedi datgan mai ei nod oedd cwblhau ymchwiliadau o fewn 12 mis ond ei bod yn cael trafferth cyflawni'r amserlen oherwydd diffyg adnoddau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys Atodiadau 1- 6 yn yr adroddiad.**
- **Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu at yr Ombwdsmon i fynegi pryderon y Pwyllgor ynghylch yr amserlen ar gyfer ymchwiliadau i gwynion sydd i'w cwblhau, a**
- **Bod y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro yn cytuno ar yr amserlen ar gyfer ysgrifennu at yr Ombwdsmon.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

## 7. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn crynhoi canfyddiadau cyhoeddedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gwynion dan y Cod Ymddygiad yng Nghymru o fis Mehefin i fis Rhagfyr 2024.

Cododd y Swyddog Monitro y pwyntiau a ganlyn o'r 11 crynodeb achos a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon: -

- Cyngor Cymuned Llanedi – dangosodd yr achos hwn fod ymddygiad ac iaith yn ffactorau arwyddocaol wrth benderfynu a oedd y Cod Ymddygiad wedi'i dorri. Rhoddwyd pwyslais ar sylweddoli'r effaith y gellid ei chael ar eraill.
- Cyngor Tref Porthcawl/Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – amlygodd y ddau achos bwysigrwydd datgan buddiant personol neu ragfarnllyd. Er na chymerwyd unrhyw gamau yn y penderfyniadau hyn, y

neges a gafwyd oedd bod angen i Gynghorwyr fod yn ofalus wrth ddatgelu diddordeb er mwyn osgoi cwynion a'u rhoi eu hunain dan straen.

- Cyngor Sir y Fflint – yn yr achos hwn, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth a dynnai sylw at unrhyw ymddangosiad o ffafriaeth, rhagfarn neu ddylanwad gormodol ar dorri'r Cod. Nodwyd dau ffactor risg, y cyntaf oedd risg i'r aelod fod â chŵyn yn ei erbyn, a allai fod yn ddifrifol, gan ddibynnu ar y dystiolaeth, Y risg arall oedd, gallu herio a gwrthdroi'r penderfyniad ei hun os oedd yr aelod wedi bod yn rhan o benderfyniad lle 'roedd rhagfarn, gan arwain at gostau sylweddol i'r awdurdod.
- Cyngor Dinas Casnewydd – dylai aelodau osgoi defnyddio'r teitl 'y Cynghorydd' os oeddynt yn mynd i gwyno am rywun yn eu bywyd personol.
- Cyngor Cymuned Saundersfoot/Cyngor Sir Benfro – amlygodd yr achos hwn mai yn nwylo'r Ombwdsmon ac nid yn nwylo'r achwynydd yr oedd penderfyniad i dynnu cwyn yn ôl, os oedd digon o dystiolaeth neu os oedd cwyn er budd y cyhoedd. Y neges oedd yma wrth wneud cwyn i'r Ombwdsmon o dan y Cod oedd na ddylai'r achwynydd drin y mater yn ysgafn oherwydd y gellid dilyn yr achos drwodd.
- Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau – Atgoffwyd Cynghorau Tref a Chymuned o'r Protocol Datrys Lleol. Ystyriwyd y gellid bod wedi datrys yr ymchwiliad i'r achos heb ymyrraeth yr Ombwdsmon.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr opsiynau gorau i rannu gwybodaeth am grynodebau'r achosion a'r gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad hwn gydag aelodau.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y crynodebau achosion a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**
- **Trafod gyda'r Arweinyddion Grŵp sut y dylai'r Pwyllgor Safonau rannu gwybodaeth, cyn anfon llythyr gyda dolenni i aelodau.**
- **Trafod cynnig y Pwyllgor Safonau i gyflwyno'r gwersi a ddysgwyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus mewn sesiynau briffio aelodau gyda'r Prif Weithredwr.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

**8. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn crynhoi achosion a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers y cyfarfodydd diwethaf o'r Pwyllgor Safonau ar 18 Mehefin 2024 a 31 Rhagfyr 2024.

Rhoddodd y Swyddog Monitro grynodeb o'r achosion a ganlyn a gyhoeddwyd gan y Panel: -

Roedd yr achos cyntaf yn ymwneud â phenderfyniad i wahardd yr aelod etholedig am 12 mis am dorri'r Cod Ymddygiad drwy ddwyn anfri ar y Cyngor. Roedd yr achos yn ymwneud ag aflonyddu o natur rywiol, lle'r oedd y Cynghorydd wedi anfon negeseuon at unigolyn yn bersonol, nid fel Cynghorydd.

Roedd y Cynghorydd wedi dangos edifeirwch am ei weithredoedd ond nid oedd ganddo syniad gwirioneddol o effaith ei ymddygiad. Ymchwiliodd yr Heddlu i'r achos, hefyd, a rhoddwyd rhybudd amodol am dri mis i'r Cynghorydd; rhybudd na chafodd ei gyhoeddi. Roedd y Tribiwnlys Achos wedi penderfynu nad oedd angen i'r mater gael ei gyhoeddi oherwydd, mewn cymuned fach, roedd pawb yn gwybod am y penderfyniad.

Roedd yr ail achos yn ymwneud ag unigolyn oedd wedi'i wahardd am dair blynedd. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gyfanswm o naw digwyddiad o ymddygiad rheibus, oedd wedi digwydd dros gyfnod hir o amser. Roedd y Swyddog Monitro a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymyrryd cyn i'r Heddlu ymchwilio i'r achos. Ni pheidiodd ymddygiad y Cynghorydd o beri pryder, a chymerai ei ymddygiad yn ysgafn, rhywbeth na chymeradwywyd gan y Tribiwnlys. Sefydlwyd Tribiwnlys Dros Dro (oherwydd natur yr ymddygiad), gan mai’r teimlad oedd bod yna risg i'r cyhoedd yn yr achos hwn, a chafodd yr unigolyn ei wahardd am chwe mis wrth i’r ymchwiliad barhau. Ymddiswyddodd y Cynghorydd o'i ddwy rôl fel Cynghorydd cyn i'r mater ddod i ben - ond, y tro hwn, ni chafodd effaith ar y canlyniad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y crynodebau achos a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**
- **Ychwanegu'r materion hyn at gamau gweithredu'r eitem flaenorol o ran rhoi gwybod i aelodau am wersi i'w dysgu er mwyn cael darlun llawn o ddigwyddiadau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

*(Ymunodd y Cynghorydd Iorwerth Roberts â’r cyfarfod am 10:55am)*

## 9. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni chyflwynwyd adroddiad, gan y nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau am ganitâd arbennig wedi dod i law yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor Safonau a dyddiad cyhoeddi'r rhaglen hon.

## 10. FFORWM CENEDLAETHOL AR GYFER PWYLLGORAU SAFONAU CYMRU - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar ddau gyfarfod diwethaf o’r Fforwm yr aeth Cadeirydd y Pwyllgorau Safonau iddynt ar 24 Mehefin 2024 a 27 Ionawr 2025.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol fod y Pwyllgor Safonau wedi derbyn copi o nodiadau'r Cadeirydd yn dilyn y ddau gyfarfod o'r Fforwm. Croesawodd y Cadeirydd unrhyw sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor Safonau ar y prif bwyntiau a godwyd yn ei nodiadau o'r cyfarfodydd.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n mynd i gyfarfod nesaf o'r Fforwm ar 23 Mehefin 2025 ac yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

**11. ADOLYGIAD Y PWYLLGOR SAFONAU O GOFRESTR DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG Y CYNGOR SIR**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr uchod. Yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2024, cytunodd y Pwyllgor Safonau y dylid cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol at yr adroddiad cyffredinol oedd yn cynnwys y prif faterion a gododd o'r broses adolygu ac a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yr adroddiad i Arweinyddion Grŵp ym mis Gorffennaf y llynedd a chafodd ei rannu gyda'r aelodau ym mis Awst 2024.

Gan gyfeirio at faterion technegol a chorfforaethol, ysgrifennodd y Pwyllgor Safonau at y Prif Weithredwr ym mis Mai 2024 yn manylu ar y materion corfforaethol a nododd yr aelodau annibynnol wrth gynnal yr adolygiad. Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi diweddariad ar y rhaglen waith a ddatblygwyd i ymateb i'r materion a godwyd, gan dynnu sylw at y cynnydd da a gafwyd. Roedd diweddariad gan y Pennaeth Democratiaeth ar y rhaglen waith yn ei adroddiad yn Eitem 4 ar raglen heddiw ac yn cadarnhau'r ddau fater TGCh oedd yn weddill. Nodwyd bod y materion hyn, hefyd, wedi'u codi gan y Pwyllgor Safonau yn ystod ei adolygiad diwethaf.

Cytunodd y Pwyllgor bod angen cael y feddalwedd TGCh angenrheidiol, fel bod aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac anogodd wneud bob ymdrech i ddatrys y materion a nodwyd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'i atodiadau.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn cefnogi datblygiadau i uwchraddio meddalwedd Mod.Gov er budd yr aelodau.**
- **Cysylltu â TGCh i ofyn am ddiweddariad ar fuddsoddi mewn meddalwedd Mod.Gov yn y dyfodol ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 12. ADOLYGIAD ANNIBYNNOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn dilyn adolygiad annibynnol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ganfod a yw ei brosesau gwneud penderfyniadau yn addas at y diben.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi derbyn cwyn a gadarnhawyd ym mis Mawrth y llynedd am bostiad amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol ac a gyhoeddwyd gan aelod o staff yr Ombwdsmon. O ganlyniad i'r mater hwn, mynegwyd pryderon ynghylch a oedd proses gwneud penderfyniadau'r Ombwdsmon yn deg ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

Ar y sail honno, comisiynodd yr Ombwdsmon adolygiad annibynnol, dan arweiniad Dr Melissa McCullough, i ganfod a oedd y gweithdrefnau cwyno a ddilynwyd gan Dîm Cod yr Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion yn gadarn.

Cyhoeddwyd canfyddiadau cyffredinol yr adolygiad ym mis Medi 2024 a daethant i'r casgliad bod prosesau ymchwilio'r Ombwdsmon yn gadarn. Roedd pob penderfyniad yn systematig, wedi'i gofnodi'n dda, yn seiliedig ar ffeithiau, tystiolaeth ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

Nododd yr Ombwdsmon fod y saith argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad wedi'u derbyn ac y byddai'r chwe gwers a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adolygiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 13. YMGYNGHORIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU YNGHYLCH ARGYMHELLIAD RHIF 2 YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn dilyn papur ymgynghori a gyhoeddwyd mewn perthynas ag argymhelliad 2 adolygiad annibynnol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (a drafodwyd yn Eitem 12).

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod yr argymhelliad yn deillio o Ymgynghoriad yr Ombwdsmon yn yr eitem flaenorol. Cyfeiriai at arfer presennol yr Ombwdsmon o beidio â rhoi gwybod i Aelod Cyhuddedig am gŵyn yn ei erbyn nes ei bod wedi'i hasesu.

Nodwyd nad oedd Aelodau Cyhuddedig, ar hyn o bryd, yn gwybod am unrhyw gwynion a wnaed yn eu herbyn hyd nes y byddai'r Ombwdsmon wedi cwblhau asesiad cychwynnol. Yn ei hadroddiad, ac er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, daeth Dr McCullough i'r casgliad y dylai'r Ombwdsmon adfer y trefniant

blaenorol o roi gwybod i'r Aelod Cyhuddedig yn gynt, adeg cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon. Cytunodd y Pwyllgor Safonau â chynnig Dr McCullough.

Anfonwyd gohebiaeth mewn perthynas ag ymgynghoriad yr Ombwdsmon at aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned i gael eu sylwadau. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi derbyn dau ymateb ac wedi trafod y rhain yn rhan o gyfarfod anffurfiol. Aeth Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyfarfod o Arweinyddion Grŵp i gyflwyno barn y Pwyllgor Safonau a chael eu barn hwythau. Anfonodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau lythyr yn manylu ar yr holl safbwyntiau a gafwyd cyn y dyddiad cau, 31 Ionawr 2025.

Byddai'r Swyddog Monitro'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn yr ymgynghoriad, pan gaiff ei gyhoeddi.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Rhannu gohebiaeth Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyda'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod y Swyddog Monitro'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am ganlyniad ymgynghoriad yr Ombwdsmon ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.**
- **Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n rhoi gwybod i aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned am benderfyniad yr Ombwdsmon ar ei drefniadau ynghylch rhoi gwybod i Aelod Cyhuddedig am gŵyn yn ei erbyn.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 14. PROTOCOLAU DATRYSIAD LLEOL A FABWYSIADWYD GAN AWDURDODAU YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn manylu ar y gwaith a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â gwahanol Brotocolau Datrys Lleol oedd wedi'u mabwysiadu gan awdurdodau yng Nghymru.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod disgwyl i bob awdurdod lleol fabwysiadu Protocol i ymdrin â mân gŵynion a chwynion dibwys nad ydynt yn torri'r Cod. Dywedodd fod gan y Cyngor Sir ei brotocol ei hun, oedd wedi'i ddiweddaru dair gwaith ers ei fabwysiadu.

Roedd yr Ombwdsmon wedi casglu'r Cynlluniau Datrys Lleol cyfredol gan Awdurdodau Cymru ac wedi derbyn barn gyfreithiol ar egwyddorion a gynhwysid yn y Protocolau. Roedd y Swyddog Monitro wedi cynnal proses fapio i gymharu Cynllun Datrys Lleol presennol y Cyngor Sir â'r egwyddorion a gafwyd yn y farn gyfreithiol.

O ganlyniad i hyn, cynghorwyd y Pwyllgor Safonau i ystyried diwygio Cynllun Datrys Lleol y Cyngor, a gynhwysid yn Atodiad 1, yn unol â'r ddau argymhelliad a nodwyd yn Atodiad 2.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n nodi'r egwyddorion ym mharagraff 2 yr adroddiad.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau'n rhannu egwyddorion yr Ombwdsmon gydag Arweinyddion Grŵp i'w cynorthwyo yn eu dyletswyddau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad a chynorthwyo aelodau yn eu dealltwriaeth o (i) y Cynllun Lleihau Priodol; a (ii) y prosesau eraill sydd ar gael i aelodau, rhag ofn y bydd pryderon yn codi ynghylch safonau uchel o ymddygiad aelodau.**
- **Bod y Swyddog Monitro'n cyfeirio'r gwelliannau a argymhellid i'r Cynllun Lleihau Priodol a nodir yn Atodiad 2 at yr Arweinyddion Grŵp, iddynt eu hadolygu a'u hystyried, ochr yn ochr ag argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau y dylid derbyn y gwelliannau.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau'n gofyn am ddiweddariad gan y Swyddog Monitro yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar faterion sy'n ymwneud ag:**

  - **A oedd yr Arweinyddion Grŵp wedi cytuno i'r gwelliannau a argymhellid i'r Cynllun Lleihau Priodol;**
  - **A oedd ffurf y Cynllun hwn wedi'i ddiweddaru, yn sgil trafodaethau gyda'r Arweinyddion Grŵp; ac,**
  - **A oedd gofyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried rhagor o ddiwygiadau canlyniadol i weithdrefnau neu ddogfennau'r Cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r Cynllun a'r farn gyfreithlon a gafodd yr Ombwdsmon, fel yr adroddwyd arno.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 15. PROSES GWRANDAWIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar waith a wnaed i addasu'r broses wrandawiadau ar gyfer cyfeiriadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod tair cwyn dan ymchwiliad gan yr Ombwdsmon yn haf 2024. Ar y sail honno, gellid cyfeirio'r rhain yn ôl at y Pwyllgor Safonau i benderfynu arnynt. Cynhaliwyd hyfforddiant allanol ar gynnal gwrandawiadau ym mis Medi 2024. Argymhellodd yr hyfforddwr rai newidiadau i'r broses.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y newidiadau hynny a nodwyd yn yr adroddiad wedi'u gwneud i'r broses wrandawiadau, ac roedd y rhain wedi cael ymateb cadarnhaol gan y Pwyllgor pan gawsant eu rhannu ar 29 Tachwedd 2024. Byddai angen eu cadarnhau'n ffurfiol.

**PENDERFYNWYD:**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno â mabwysiadu'r broses a gynhwysir yn Atodiad 1 yn weithdrefn i benderfynu ar gwynion ynghylch camymddygiad aelodau.**
- **Gwneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r broses ddiwygiedig hon, fel y bo'n berthnasol.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

**16. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod: -**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus sydd wedi'i atodi".**

**17. CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch ymddygiad; cwynion yr oedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio iddynt.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod fersiynau wedi'u golygu o'r pedwar hysbysiad penderfyniad a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon yn ystod chwarteri 1-3 2024/25 (a gyflwynwyd fel data yn Eitem 6 ar raglen heddiw yn unig) wedi'u rhannu â'r Pwyllgor Safonau. Yr achosion oedd materion lle 'roedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio oherwydd nad oedd tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. Roedd yr Ombwdsmon wedi cadarnhau y dylid rhannu'r hysbysiadau penderfyniad â'r Pwyllgor Safonau yn gyfrinachol, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i ddyletswydd i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymhlith aelodau.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.**

**Gweithredu: Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am am 12:00pm

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Trefor Owen (Cadeirydd)<br>Mr Brace Griffiths (Is-Gadeirydd)<br>Mr T Rhys Davies<br>Mr John R Jones<br>Mrs Gill Murgatroyd |
| | **Yn Cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Cynghorydd Margaret Murley Roberts<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (MY)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Roedd y Cynghorydd Margaret Murley Roberts a'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi ystyried ac wedi derbyn cyngor cyfreithiol o ran a oedd angen iddynt ddatgan diddordeb mewn perthynas ag Eitem 3 ar yr agenda. Mae gan y ddau Gynghorydd berthynas waith broffesiynol â'r Cynghorydd sy'n destun yr adroddiad yn Eitem agenda 3. Fodd bynnag, daeth y ddau i'r casgliad nad oedd y berthynas yn bodloni'r lefel o gysylltiad personol agos yn unol â'r ystyr yn y Cod Ymddygiad i Aelodau ac y byddent yn cymryd rhan yn Eitem 3 ar yr agenda gan nad oedd angen iddynt ddatgan diddordeb na thynnu'n ôl o fod yn ystyried yr eitem.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**3. PENDERFYNIAD CYCHWYNNOL YNGHYLCH CWYN A GYFEIRIWYD AT Y SWYDDOG MONITRO GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU I'W HYSTYRIED GAN BWYLLGOR SAFONAU'R CYNGOR**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro er mwyn penderfynu a oedd cwyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos un ai: -

(i) "nad oes unrhyw dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; neu

(ii) y dylid cynnal gwrandawiad lleol ynglŷn â'r mater fel y gall yr Aelod wneud sylwadau, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad eu bod wedi methu â, neu y gallant fod wedi methu â, chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad"

Yn dilyn ystyried adroddiad y Swyddog Monitro ac adroddiad Swyddog Ymchwilio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fe benderfynodd y Pwyllgor Safonau yn unfrydol y dylid cyfeirio'r mater i wrandawiad lleol a chytunwyd i'r canlynol: -

**PENDERFYNWYD: -**

- **Y dylid cynnal gwrandawiad lleol o'r Pwyllgor ynglŷn â'r mater fel y gall yr Aelod perthnasol wneud sylwadau, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad eu bod wedi methu â, neu y gallant fod wedi methu â, chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.**

- **Bod y Swyddog Monitro yn cynnal y broses Cyn-Wrandawiad yn unol â'r Weithdrefn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:15pm

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 12 Mehefin 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y materion llywodraethiant democrataidd a drafodwyd yn y cyfarfod ar 6 Chwefror ac ar faterion eraill cysylltiedig.

**Cynllun gwella**

2. Lluniwyd cynllun gwella i ddelio gyda materion democrataidd a gododd y Pwyllgor Safonau wrth gynnal adolygiad o gofrestrau aelodau yn 2024. Rhannwyd copi o'r cynllun gwella gyda'r Pwyllgor y llynedd a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd yn y Pwyllgor ym mis Chwefror.

3. Adroddwyd bryd hynny bod 15 o'r 20 gweithred wedi eu cwblhau a bod 2 arall yn rhai parhaus. Dyma ddiweddariad ar y 3 gweithred a oedd yn weddill:

   i) "*Galluogi aelodau i gwblhau y gofrestr diddordebau sefydlog ar ochr Gymraeg ModGov os ydynt yn dymuno*" – rydym wedi gwneud cais i'r cwmni meddalwedd am y datblygiad yma. Ni yw'r unig awdurdod sydd yn defnyddio ModGov sydd wedi gwneud cais o'r fath, felly ni fydd yn cael ei drin fel blaenoriaeth. Deallwn nad yw awdurdodau eraill cyfagos yn caniatáu mynediad i aelodau yn uniongyrchol ac mai swyddogion sy'n mewnbynnu gwybodaeth ar eu rhan. Yn y cyfamser bydd ein swyddogion yn parhau i gynnig mewnbynnu gwybodaeth ar ran aelodau er mwyn lliniaru unrhyw effaith posibl.

   ii) "*Galluogi aelodau i gwblhau eu ffurflen cofrestr datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar-lein*" – mae modd i aelodau gwblhau'r ffurflen ar bapur neu'n electronig a'i ddychwelyd i glerc y pwyllgor. Caiff aelodau eu hatgoffa o'r angen i gwblhau ffurflen gan gadeirydd pob pwyllgor ar ddechrau cyfarfodydd

ac mae’r ymateb wedi bod yn gadarnhaol eleni gyda ffurflenni yn cael eu dychwelyd ar amser.

iii) “*Cysylltu gwe-ddarllediadau efo eitemau agenda*” – wedi ei gwblhau.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig 24/25**

4. Rhannwyd templed a chyfarwyddiadau gyda aelodau ar gyfer cwblhau eu hadroddiad blynyddol ar 24 Mawrth ac mae negeseuon atgoffa rheolaidd wedi eu rhannu ers hynny. Gofynnwyd am yr adroddiadau yn wreiddiol erbyn mis Mai ac rydym wedi caniatáu estyniad tan 6 Mehefin.

5. Hyd yma mae 22 o adroddiadau wedi eu derbyn, sy’n cymharu gyda 26 a dderbyniwyd ar gyfer 23/24. Mae’n debygol bydd un neu ddau o adroddiadau ychwanegol yn ein cyrraedd dros y dyddiau nesaf. Byddwn yn cyhoeddi’r adroddiadau ar wefan y Cyngor yn y drefn arferol erbyn diwedd Mehefin.

**Cofrestr datgan diddordeb**

6. Caiff aelodau eu hatgoffa o’r angen i ddiweddaru eu cofrestrau o fewn 28 diwrnod gwaith i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

7. Mae’n ofynnol hefyd i aelodau gwblhau’r gofrestr a ffurflen ychwanegol yn cynnwys manylion teulu agos at ddibenion cyfrifon y Cyngor. Mae’r gwaith hynny yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a mwyafrif helaeth yr aelodau wedi cwblhau’r broses.

**Sgyrsiau datblygu blynyddol a chofnodion hyfforddiant**

8. Caiff diweddariadau chwarterol ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol. Mae hynny’n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol. Bydd diweddariad chwarter 1 25/26 yn cael ei anfon yn ystod mis Gorffennaf. Caiff gwybodaeth am bresenoldeb aelodau mewn pwyllgorau eu rhannu gyda arweinyddion yn chwarterol erbyn hyn hefyd.

9. Rhannwyd templed sgwrs flynyddol gyda arweinyddion grŵp yn ystod diwedd Chwefror. Bwriad y templed oedd cynnig strwythur ar gyfer cynnal sgwrs datblygiad blynyddol gyda aelodau eu grwpiau. Gofynnwyd i’r arweinyddion rannu unrhyw wybodaeth am ofynion hyfforddiant a oedd wedi codi o’r sgyrsiau fel bod modd eu cynnwys yng nghynllun datblygu aelodau ar gyfer 25/26. Cawsom wybodaeth gan ddau o’r arweinyddion.

**Argymhelliad**

10. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 12 MEHEFIN 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar faterion dysgu a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2025 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynhigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel y byddwch yn ymwybodol mae'r cynllun dysgu sydd wedi ei osod ar gyfer ein Haelodau Etholedig wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; **Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu**. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn cynnig diweddariad isod ar y ddarpariaeth hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd at hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 55 o gyfleoedd dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 33/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 31/35 |
| Diogelu Data | 29/35 |
| Seiberddiogelwch | 34/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu'r teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen er mwyn uchafu niferoedd cwblhau y teitlau hyn.

## 3. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor hwn mae cynnydd wedi ei wneud ar roi'r Cynllun dan sylw ar waith. Fel diweddariad;

- Mae pob un o'n Harweinyddion Grwpiau wedi cwblhau Proffil DiSC (math o broffil personoliaeth) a lle'n berthnasol wedi ymgymryd â Sesiwn Dadansoddi 1:1 gydag hyfforddwr annibynnol.
- Mae dyddiadau er mwyn bwrw ymlaen â'r ail gam, sef cyfres o sesiynau cymhelliant ffurfiol wedi eu rhannu er mwyn rhoi'r agwedd hon o'r cynllun ar waith.

Noder fod darpariaeth wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau uchod ar gael yn ddwyieithog ac i ddilyn yn newis iaith yr unigolyn.

Ymhellach i hyn byddem yn edrych ar bob cyfle i gyfeirio ein Haelodau Etholedig at y trwch ddarpariaeth sydd ar gael gan CLlLC ac Academi Cymru fel y bo'n berthnasol.

## 4. CYFATHREBIADAU

Mae'r cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Democrataidd ac unrhyw Swyddogion perthnasol eraill yn yr Awdurdod yn parhau i'w gyfrif yn effeithiol. Hynny'n sicrhau bod unrhyw gynllun yn mynd i'r afael ag anghenion ein Haelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu'n ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag Arweinwyr Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

## 5. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau'n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, mae'r symudiad diweddar i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol yn ogystal yn parhau gydag opsiwn pellach lle'n addas ac yn berthnasol i fod yn recordio sesiynau at ddefnydd pellach. Noder, bod y dull cyflwyno'n ddibynnol ar y

pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffafrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Yn unol â'r hyn adroddwyd ym mis Chwefror mae sesiynau erbyn hyn yn cael eu cynnal fel sesiynau uniaith Gymraeg a Saesneg ar wahân, hyn er mwyn unioni gyda'r trefniant Corfforaethol i staff. Fodd bynnag, mae'r trefniant hon yn ddibynnol ar allu sicrhau lefelau mynychu iach i'r sesiynau fydd yn cael eu cynnal.

## 6. I GRYNHOI

Mae'r cynllun dan sylw yn parhau i'w chyfri'n esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio'n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 7. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig 2023 - 2025**

**Training and Development offered to Elected Members 2023 - 2025**

| Teitl y Cwrs | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 (*agored i bawb*) | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 (*open to all*) |
| **Ymwybyddiaeth Menopos** (*agored i bawb*) | **0** | **35** | **Menopause Awareness** (*open to all*) |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **4** | **20** | **Health & Safety for Members** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | | | **Anti Racism** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | **9** | **35** | **Anti Racism** |
| **Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth** | **9** | **35** | **Group 6: Strengthening Leadership** |
| **(VAWDASV)** | **9** | **35** | **(VAWDASV)** |
| **Rhentu Doeth Cymru** | **2** | **10** | **Rent Smart Wales** |
| **Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)** | **16** | **6** | **Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV)** |
| **Cynllunio i Aelodau** | **34** | **26** | **Planning for Members** |
| **Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau ar y Côd Ymddygiad** | **10** | **6** | **Standards Committee's Code of Conduct Hearings** |
| **Cynllunio - Cyfarwyddyd Erthygl 4** | **33** | **23** | **Planning - Article 4 Direction** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **9** | **9** | **Health and Safety for Members** |
| **Diogelu Data (**cwrs staff yn agored i bawb**)** | **6** | **4** | **Data Protection (**staff course open to all**)** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (**cwrs Cymraeg i staff, wedi agor i bawb**)** | **5** | **0** | **Equality, Diversity, and Inclusion (**Welsh staff course opened to all**)** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (**cwrs Saesneg i staff, wedi agor i bawb**)** | **5** | **1** | **Equality, Diversity, and Inclusion (**English staff course opened to all**)** |
| **Seibrddiogelwch i Aelodau** | **1** | **1** | **Cyber Security for Members** |
| **Craffu ar y Gyllideb: Edrych Ymlaen** | **-** | **2** | **Budget Scrutiny: Looking Forward** |
| **Seibrddiogelwch i Aelodau** | **1** | **1** | **Cyber Security for Members** |
| **Sesiwn 'Cyber Ninjas' i Gynghorwyr** | **35** | **7** | **'Cyber Ninjas' session for Councillors** |
| **Dangos Effaith - Gofyn y cwestiwn 'felly beth'** | **-** | **3** | **Demonstrating Impact - Asking the 'so what' question** |
| **Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg** | **1** | **1** | **Welsh Language Awareness** |
| **Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **2** | **2** | **Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **1** | **1** | **Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **1** | **1** | **Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd (**cwrs staff yn agored i bawb**)** | **-** | **1** | **Introduction to Climate Change (**staff course open to all**)** |

This page is intentionally left blank

Eitem 5 ar y Rhaglen

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion lleol a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1.**

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2.**

## 3. CYNGHORWYR SIR

3.1 Ar hyn o bryd mae un achos yn cael ei ymchwilio gan OGCC mewn perthynas â un Cynghorydd Sir a dderbyniwyd yn Chwefror 2024.

3.2 Mae achos arall sy'n ymwneud â Chynghorydd Sir gwahanol, anfonwyd at OGCC yn Awst 2023, wedi cael ei ymchwilio gan OGCC a'i anfon at y Pwyllgor Safonau. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cynnal Gwrandawiad lleol; gellir gweld manylion y Gwrandawiad, yn cynnwys penderfyniad cyhoeddus y Pwyllgor Safonau ar y ddolen hon.

022335/856366 (856526)

## 4. CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

4.1 Ar hyn o bryd mae un achos yn cael ei ymchwilio gan yr OGCC mewn perthynas â Chynghorydd Cymuned. Cafodd ei dderbyn yn Ionawr 2024

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1-2.**

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| 1 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 4 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. |
| 2 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 4 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |

022335/856366 (856526)

**Atodiad / Enclosure 1**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2025) – 2024/2025 – Quarter 4 (January – March 2025)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O wedi anfon ei adroddiad at sylw'r Pwyllgor Safonau a threfnir gwrandawiad lleol gan y Pwyllgor / O has sent its report for the attention of the Standards Committee and a local hearing will be held by the Committee |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

Tudalen 25

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2025) – 2024/2025 – Quarter 4 (January – March 2025)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned Ch / Community Council Ch | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 26634<br>202406969 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 24.01.2025 | O wedi penderfynu na ddylid ymchwilio'r gŵyn / O decided that the complaint should not be investigated |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar ei wefan gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mai 2025.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer misoedd Ionawr 2025 i fis Mai 2025 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig. **[ATODIAD 1]**.

## 2. CYLCHLYTHYR CHWARTEROL

Yn ogystal â'r wybodaeth ar y wefan, mae'r Ombwdsmon hefyd yn cyhoeddi cylchlythyrau chwarterol. Gellir gweld chweched rhifyn y cylchlythyr chwarterol gan OGCC, Tachwedd 2024 - Mawrth 2025 (dyddiedig 1 Ebrill 2025) yma.

## 3. CEFNDIR

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCC yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn golygu bod OGCC yn fodlon:

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a

- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(1) Nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(2) Nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(3) Bod y mater yn cael ei gyfeirio at swyddog monitro yr awdurdod i'w ystyried gan y pwyllgor safonau; neu

(4) Bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (3) neu (4) uchod yn berthnasol, bydd OGCC wedyn yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu i Banel Dyfarnu Cymru (PDC), a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran y panel, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y cod ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os felly, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, ac os gwelir bod achos o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol i'r drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 4. ARGYMHELLIAD

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb a adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer misoedd Ionawr 2025 i fis Mai 2025 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig. |

**ATODIAD 1**

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15/01/2025 | Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri | 202306358 | Datgelu a chofrestru buddiannau : Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Datgelu a chofrestru buddiannau | Dim angen gweithredu | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod cyn-Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy fethu â datgan ei fuddiant personol a oedd yn rhagfarnu ym musnes y Cyngor yn ymwneud â materion maes pentref pan fynychodd gyfarfod y Pwyllgor Maes Pentref a chyfarfod o'r Cyngor.<br><br>Barn yr Ombwdsmon oedd y dylai'r cyn-Aelod fod wedi datgan ei fuddiant o ran materion Maes Pentref, gadael y cyfarfod pan ddaeth y cyfnod ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd i ben a pheidio â chymryd rhan ymhellach mewn trafodaethau. Roedd y methiant i wneud hynny yn awgrymu torri paragraffau 11(1), 11(2)(b), 14(1)(a) a 14(1)(e) o'r Cod.<br><br>Pan fynychodd y cyn-Aelod gyfarfod perthnasol o'r Cyngor, arhosodd ei ddiddordebau yr un fath. Roedd y methiant i ddatgan ei fuddiant a gadael yr ystafell pan drafodwyd materion o ran |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Maes Pentref yn awgrymu achosion pellach o dorri paragraffau 11(1) a 14(1)(a) o'r Cod.<br><br>Ystyriwyd diffyg profiad a hyfforddiant y cyn-Aelod, ynghyd â diffyg unrhyw fudd personol, niwed a achoswyd i rywun arall neu fwriad i gamddefnyddio ei safle i greu mantais iddo'i hun neu anfantais i eraill.<br><br>Nodwyd ymhellach byddai canlyniad y cyfarfodydd yn annhebygol o fod yn wahanol pe na bai wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd perthnasol.<br><br>Nodwyd bod y Pwyllgor Safonau yn fuan wedi hynny wedi rhoi caniatâd arbennig i'r cyn-Aelod i gymryd rhan mewn materion maes pentref yn y dyfodol.<br><br>Cydnabu'r cyn-Aelod ei gamwedd ac ymddiheurodd yn ystod y cyfweliad â'r Ombwdsmon. Ar sail hyn, ynghyd â'r ffaith nad oedd bellach yn aelod o'r Cyngor, penderfynwyd nad oedd yr |

| **Dyddiad** | **Enw'r Cyngor** | **Rhif Achos** | **Dolenni i'r achos ar wefan OGCC** | **Math o adroddiad – Pwnc** | **Math o Adroddiad – Canlyniad** | **Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi:** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | achosion o dorri'r cod mor ddifrifol fel ei bod yn briodol cyfeirio at y Pwyllgor Safonau nac yn ofynnol er budd y cyhoedd.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 27/02/2025 | Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref Saltney | 202307129 / 202307130 | Anhunanoldeb a Stiwardiaeth : Cyngor Sir y Fflint - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Anhunanoldeb a Stiwardiaeth | Dim angen gweithredu | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn yn honni bod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy gamddefnyddio eu safle a defnyddio adnoddau eu hawdurdod yn amhriodol. Honnwyd eu bod wedi gofyn am gael danfon bagiau tywod i eiddo aelod agos o'u teulu yn ystod llifogydd difrifol.<br><br>Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod paragraffau 7(a) a 7(b) o'r Cod wedi cael eu torri ac ystyriodd a oedd paragraffau 11 neu 14 o'r Cod hefyd wedi cael eu torri. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Cadarnhaodd y dystiolaeth nad oedd yr Aelod wedi dweud wrth swyddogion y Cyngor bod eu hadroddiadau o lifogydd na'u cais i ddosbarthu bagiau tywod yn ymwneud ag eiddo aelod agos o'u teulu. Fodd bynnag, cadarnhaodd hefyd nad oedd yr Aelod yn ceisio rhoi pwysau i gael triniaeth ffafriol ar gyfer eu ceisiadau y tu allan i brotocol brys sefydledig y Cyngor. Barn yr Ombwdsmon oedd nad oedd hyn yn awgrymu bod yr Aelod wedi torri paragraffau 7(a) neu 7(b) o'r Cod.<br><br>Trwy fethu â datgan eu buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn materion a oedd yn effeithio ar eiddo aelod agos o deulu'r Aelod, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod hyn yn awgrymu rhai achosion technegol o dorri paragraffau 11(2)(a), 11(2)(b), 14(1)(d) a 14(1)(e) o'r Cod.<br><br>Ar sail y dystiolaeth, ni chafodd yr Ombwdsmon ei berswadio bod yr |



CC-022335/865570(864446)

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | achosion tebygol o dorri'r Cod mewn perthynas â buddiannau hefyd yn torri paragraffau 6(1)(a) sy'n ymwneud ag anfri neu 7(a) (camddefnyddio safle)).<br><br>Sylweddolwyd bod hon yn sefyllfa argyfyngus a phe bai'r Aelod wedi datgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu pan gysylltwyd â'r Cyngor, byddai hyn wedi tynnu sylw swyddogion y Cyngor at y ffaith bod y ceisiadau'n ymwneud ag aelod agos o'u teulu, ac yn debygol o fod wedi arwain at y canfyddiad bod y Cynghorydd yn ceisio defnyddio eu safle yn amhriodol, ac o bosibl yn torri paragraffau 7(a) a/neu 7(b) o'r Cod.<br><br>Ar ôl pwyso a mesur, penderfynwyd nad oedd unrhyw doriadau o ran buddiannau mor ddifrifol gan nad oeddent yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr Achwynydd nac unrhyw ddylanwad amhriodol ar gamau gweithredu'r Cyngor fel bod |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cyfeirio at y Pwyllgor Safonau yn briodol er budd y cyhoedd.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 20/03/2025 | Cyngor Sir Fynwy | 202401376 | Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Sir Fynwy - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Dyletswydd i gynnal y gyfraith | Dim angen gweithredu | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn a hunangyfeiriwyd gan aelod o'r Cyngor, yn esbonio bod yr Aelod wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad trwy ddatgelu gwybodaeth a allai fod yn sensitif neu gyfyngedig yn ystod cyfarfod y Cyngor.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon fod angen ymchwilio ac felly ystyriwyd y paragraffau canlynol o'r Cod:<br><br>• 5(a) – rhaid i [aelodau] beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ei hystyried yn rhesymol yn wybodaeth gyfrinachol, heb ganiatâd penodol person a awdurdodwyd i roi |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | caniatâd o'r fath, neu oni bai bod y gyfraith yn mynnu hynny.<br><br>• 6(1)(a) – Rhaid i [aelodau] beidio ag ymddwyn [eu hunain] mewn modd y gellid ystyried yn rhesymol fel un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod gweithredoedd yr Aelod wrth gyfeirio at y wybodaeth heb ganiatâd neu awdurdodiad penodol i wneud hynny (a'r cyhoeddusrwydd dilynol ynghylch ei weithredoedd) yn awgrymu torri'r paragraffau yn y Cod a ystyriwyd.<br><br>Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd angen camau pellach, drwy gyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, er budd y cyhoedd.<br><br>Roedd y ffactorau budd y cyhoedd a ystyriwyd yn cynnwys hunan-fyfyrdod, edifeirwch a bod yr Aelod yn derbyn y |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | toriadau posibl. Nodwyd hefyd bod yr Aelod wedi cymryd camau cyflym i gydnabod y datgeliad a oedd yn ymddengys i fod yn seiliedig ar dybiaeth annoeth bod y wybodaeth yn y parth cyhoeddus ar y pryd.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 10/04/2025 | Cyngor Cymuned Tonyrefail | 202400913 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned Tonyrefail - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Terfynwyd | Honnodd aelod o'r cyhoedd fod Aelod wedi gwneud "sylw gwahaniaethol ar sail anabledd" yn ystod sgwrs ffôn.<br><br>Dechreuodd yr Ombwdsmon ymchwiliad i ystyried paragraffau 4(a) (cyfle cyfartal), 4(b) (parch ac ystyriaeth) a 6(1)(a) (anfri) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Gan ystyried dymuniadau'r Achwynydd a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd parhau â’r |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ymchwiliad er budd i’r cyhoedd. Felly, rhoddwyd gorau i’r ymchwiliad. |
| 15/04/2025 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 202402082 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Terfynwyd | Honnwyd bod yr Aelod, wrth wneud sylwadau penodol i'r wasg, yn dilyn penderfyniad a wnaeth Pwyllgor Safonau'r Cyngor am ei ymddygiad proffesiynol, wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau o Awdurdodau Lleol.<br><br>Rhoddodd yr Ombwdsmon y gorau i'w hymchwiliad, ar y sail nad oedd bellach yn gymesur nac er budd y cyhoedd i ymchwilio ymhellach, yng ngoleuni'r gydnabyddiaeth a'r edifeirwch a ddangoswyd wedi hynny gan yr Aelod mewn achosion cysylltiedig. |
| 23/04/2025 | Cyngor Sir Caerfyrddin | 202402415 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Sir Caerfyrddin - Ombwdsmon | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad yn ystod digwyddiad etholiad cyhoeddus pan wnaeth yr hyn a adroddwyd fel cyfarchiad ffasgaidd a gyfeiriwyd at un o’r ymgeiswyr. Adroddwyd ar y mater yn y |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | | cyfryngau ac mewn erthyglau ar-lein yn y dyddiau dilynol.<br><br>Ystyriodd ymchwiliad a oedd ymddygiad yr Aelod yn gallu dwyn anfri ar y Cyngor neu rôl yr aelod, i fod yn awgrym o dorri’r Cod.<br><br>Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd a'r esboniadau a ddarparwyd gan yr Aelod am ei weithredoedd, penderfynodd yr Ombwdsmon, ar ôl pwyso a mesur, fod gweithredoedd yr Aelod yn ddifrifol eu natur a bod ganddynt y gallu i effeithio’n negyddol ar enw da’r Cyngor a rôl yr aelod ac yn debygol o fod wedi dwyn anfri ar ei swydd a’i awdurdod.<br><br>Fodd bynnag, gan ystyried gweithredoedd yr Aelod yn syth ar ôl y digwyddiad ac amgylchiadau ehangach gan gynnwys budd y cyhoedd, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen unrhyw gamau pellach. |

| **Dyddiad** | **Enw'r Cyngor** | **Rhif Achos** | **Dolenni i'r achos ar wefan OGCC** | **Math o adroddiad – Pwnc** | **Math o Adroddiad – Canlyniad** | **Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi:** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen gweithredu mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 24/04/2025 | Cyngor Sir Caerfyrddin | 202402627 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Sir Caerfyrddin - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod wedi torri'r Cod ymddygiad trwy gefnogi ymddygiad Aelod arall yn gyhoeddus yr honnwyd iddo dorri'r Cod mewn digwyddiad etholiad cyhoeddus a thrwy fethu â delio ag ymddygiad yr Aelod hwnnw fel Arweinydd Grŵp wedi hynny.<br><br>Ystyriodd ymchwiliad a oedd ymddygiad yr Aelod yn gallu dwyn anfri ar y Cyngor neu rôl yr aelod, i fod yn awgrym o dorri'r Cod.<br><br>Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd a'r esboniadau a ddarparwyd gan yr Aelod am ei weithredoedd, ni chafodd yr Ombwdsmon ei argyhoeddi bod tystiolaeth i awgrymu bod ei weithredoedd wedi dwyn anfri ar y Cyngor neu rôl yr Aelod. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod. |
| 02/05/2025 | Cyngor Cymuned Llanharan | 202402082 | Datgelu a chofrestru buddiannau : Cyngor Cymuned Llanharan - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Datgelu a chofrestru buddiannau | Dim angen gweithredu | Roedd yr Achwynydd, Clerc i'r Cyngor, yn pryderu, er gwaethaf ei gyngor, fod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu yng nghyfarfodydd y Cyngor wrth drafod prosiect penodol y Cyngor.<br><br>Penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth a oedd yn awgrymu methiannau i ddatgan buddiannau o'r fath a oedd yn groes i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol.<br><br>Fodd bynnag, gan fod yr Aelod: wedi ymddangos yn y diwedd i gydnabod bod ei buddiannau’n peri problemau, er yn hwyr yn y dydd; wedi ymddiswyddo o’r Cyngor; heb geisio cuddio ei buddiannau; heb elwa’n bersonol, ynghyd â’i hesboniadau ynghylch pam nad oedd wedi deall bod ei buddiannau’n bersonol |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ac yn rhagfarnu, ni chymerwyd camau pellach. Rhoddwyd cyngor i'r aelod. |
| 02/05/2025 | Cyngor Tref Conwy | 202401427 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Conwy - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylw i'r Achwynydd a'i ŵr, mewn lleoliad preifat mewn tafarn lleol, yr oedd yr Achwynydd yn ei ystyried yn wahaniaethol ac yn groes i'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr lleol.<br><br>Deallodd yr Ombwdsmon fod sgwrs danbaid wedi digwydd rhwng cynghorwyr a'r Achwynydd a'i ŵr. Gan fod y digwyddiad wedi digwydd y tu allan i leoliad Cyngor, nid oedd y Cod Ymddygiad yn gyffredinol, yn berthnasol.<br><br>Ystyriodd yr Ombwdsmon a ellid yn rhesymol ystyried bod sylwadau'r Aelod yn dwyn anfri ar eu swydd fel aelod, neu ar eu hawdurdod, er iddynt gael eu gwneud mewn cyd-destun y tu allan i'w gwaith i'r Cyngor. |

| **Dyddiad** | **Enw'r Cyngor** | **Rhif Achos** | **Dolenni i'r achos ar wefan OGCC** | **Math o adroddiad – Pwnc** | **Math o Adroddiad – Canlyniad** | **Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi:** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Canfuwyd nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod sylw'r Aelod yn wahaniaethol ei natur, na bod unrhyw dystiolaeth yn awgrymu unrhyw dorri'r Cod. |
| 09/05/2025 | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 202401510 | Datgelu a chofrestru buddiannau : Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Datgelu a chofrestru buddiannau | Terfynwyd | Honnwyd bod Aelod o'r Cyngor wedi methu â datgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu yn ystod cyfarfod y cyngor.<br><br>Dechreuodd yr Ombwdsmon ymchwiliad i ystyried paragraffau 7(a), 10(2)(c), 11(1), 12(1) a 14(1) o'r Cod Ymddygiad ("y Cod"). Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor. Cafodd yr Achwynydd ei gyfweld<br><br>Wrth benderfynu a fyddai parhau â'r ymchwiliad er budd y cyhoedd, ystyriodd yr Ombwdsmon y ffactorau perthnasol gan gynnwys a oedd yn debygol y byddai unrhyw gosb yn cael ei gosod, pe canfuwyd unrhyw achosion o dorri'r Cod.<br><br>Gan fod yr Aelod eisoes wedi'i anghymhwyso rhag bod neu ddod yn |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | aelod o'r Cyngor am gyfnod penodol, hyd yn oed pe bai achos o dorri'r Cod yn cael ei ganfod, mae'n annhebygol y byddai cosb mwy na'r anghymhwyso oedd eisoes ar waith yn cael ei osod ar yr aelod am achos o dorri'r Cod o'r math hwn. Felly, ar ôl pwyso a mesur, roedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai parhau â'r ymchwiliad yn ddefnydd anghymesur o adnoddau.<br><br>Terfynwyd yr ymchwiliad. |
| 16/05/2025 | Cyngor Tref Llandudno | 202203847 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Llandudno - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Honnwyd bod y Cyn-Aelod o Gyngor Tref Llandudno wedi bwlio ac aflonyddu ar yr Achwynydd, cydweithiwr, a'i fod ef hefyd wedi methu â'i thrin â pharch, ac wedi ymddwyn mewn ffordd a ddaeth â'i swydd fel aelod, a'r awdurdod lleol, i anfri.<br><br>Canfuwyd bod y Cyn-Aelod wedi anfon rhai cyfathrebiadau annymunol trwy lythyr, negeseuon testun ac ar gyfryngau cymdeithasol at/ynghylch yr Achwynydd. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Rhif Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o adroddiad – Pwnc | Math o Adroddiad – Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Penderfynodd yr Ombwdsmon fod ymddygiad y Cyn-Aelod yn awgrymu achosion o dorri'r Cod.<br><br>Er y byddai materion o'r fath fel arfer yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Lleol i benderfynu ar unrhyw achosion o dorri'r Cod a rhoi sancsiwn, ar yr achlysur hwn, o ystyried amgylchiadau personol penodol y Cyn-Aelod, penderfynwyd nad oedd mynd ar drywydd y materion ymhellach er budd y cyhoedd. |



CC-022335/865570(864446)

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ac a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mai 2025** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro<br>mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynne Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /<br>Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achos, neu dribiwnlysoedd achos interim, i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn dilyn ymchwiliadau gan OGCC i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mai 2025. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynir gan PDC. Mae'r achosion a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar wefan PDC ar hyn o bryd.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Ceir crynodeb o'r achosion perthnasol yn **ATODIAD 1.**

Penderfyniadau a wnaed:

- APW/001/2024-025/CT: Y Cyn-Gynghorydd Freya Bletsoe | Panel Dyfarnu Cymru
- APW/003/2024-025/AT: Y Cyn-Gynghorydd Gareth Baines | Panel Dyfarnu Cymru
- APW/008/2023-024/AT: Y Cynghorydd Steven Bletsoe | Panel Dyfarnu Cymru

## 3. **ARGYMHELLIAD**

Nodi cynnwys y crynodebau achos.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r achosion a gyhoeddwyd ar wefan Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Mai 2025. |

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o'r Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru: Ionawr 2025 – Mai 2025**

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | | | | | | |
| APW/001/2024-025/CT: Y Cyn-Gynghorydd Freya Bletsoe \| Panel Beirniadu Cymru | Y Cynghorydd Freya Bletsoe | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | **Torri paragraffau 4(b) a 4(c) o'r Cod Ymddygiad**: "*Rhaid i chi...*<br>*(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*<br>*(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson".*<br><br>**Torri paragraffau 6(1)(a) a 6(1)(d) o'r Cod Ymddygiad**: "*Rhaid i chi:* (a) *beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod...*<br>*(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n* | Adroddiad dyddiedig 6 Chwefror 2025 | Gwahardd am 21 mis | Ystyriodd y Tribiwnlys chwe digwyddiad o ymddygiad a adroddwyd yr honnir ei fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad, mewn perthynas â Digwyddiadau 1, 2, 3, 5 a 6 - gyda'i gilydd yng nghyd-destun yr hanes a'r berthynas ehangach rhwng yr Ymatebydd a'r Clerc - bod digon o dystiolaeth o batrwm ymddygiad tuag at y Clerc i gyfiawnhau canfyddiad o dan baragraff 4 (c) mewn perthynas â'r digwyddiadau hynny gyda'i gilydd, yn ogystal â chanfyddiad mewn perthynas â Digwyddiad 4.<br><br>Felly, adroddwyd am ganfyddiad bod yr Ymatebydd wedi torri'r gofyniad i beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson.<br><br>Tynnwyd sylw hefyd gan y Tribiwnlys at y ffaith bod yr Ymatebydd wedi methu'n barhaus |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran."* | | | ag ymgysylltu'n adeiladol â'r broses, gan nodi ei bod hi'n "*anwybyddu dyddiadau cau, darparu tystiolaeth feddygol anghyson, ac yn parhau i wasanaethu fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er ei bod yn honni analluogrwydd,"* a ddisgrifiodd y Panel fel ymddygiad *"anonest*."<br><br>Wrth benderfynu ar y cosbau priodol, nododd y Tribiwnlys na allai "gymryd dim camau" mewn perthynas â'r toriadau. Roedd y toriadau yn rhy niferus (10) ac, er nad oeddent "*y gwaethaf a welodd y Tribiwnlys, nid oeddent yn sicr yn dechnegol*". Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod yr Ymatebydd wedi ymddwyn naill ai'n fwriadol neu'n ddi-hid ac wedi achosi gofid sylweddol i'r Clerc. Fel y'i diffinnir ym mharagraff 36 o'r Canllawiau Cosb, bu "*aflonyddu systematig*".<br><br>Ystyriwyd amrywiol ffactorau lliniarol a gwaethygol gan y Tribiwnlys – adroddir y rhain ym |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | mharagraffau 5.2.4 a 5.2.2 o’r adroddiad ar y penderfyniad.<br><br>Gan nad oedd yr Ymatebydd bellach yn aelod o'r Cyngor Tref, nid oedd unrhyw bwrpas ei hatal. Felly, roedd y Tribiwnlys o'r farn mai'r sancsiwn addas i’w weithredu oedd anghymhwyso.<br><br><u>Fodd bynnag</u>, er bod y cynghorydd wedi'i anghymhwyso o'i rôl fel Cynghorydd Tref, nid oedd y Tribiwnlys o'r farn ei bod yn briodol anghymhwyso rôl yr Ymatebydd fel cynghorydd o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oedd yn cyflawni'r rôl honno'n briodol ac yn broffesiynol. |
| **Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau** | | | | | | |
| <u>APW/003/2024-025/AT: Y Cyn-Gynghorydd Gareth Baines \| Panel Beirniadu Cymru</u> | Cyn-Gynghorydd Gareth Baines | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Tref y Waun | Torri paragraff 7(a) o'r Cod Ymddygiad. **[Gwrthodwyd yr apêl – y tu allan i’r cyfnod apelio – dim manylion wedi'u hadrodd]** | Adroddiad dyddiedig 3 Ionawr 2025 | Gwrthodwyd yr Apêl | Penderfynodd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod yr Apelydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Tref y Waun ar 13 Tachwedd 2024, ac anfonwyd yr Hysbysiad o Benderfyniad drwy e- |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | bost a'i bostio at yr Apelydd ar 18 Tachwedd 2024.<br><br>Gwnaeth yr Apelydd gais am ganiatâd i apelio, ond derbyniwyd hyn gan PDC ar ôl y ffenestr apêl 21 diwrnod a ddarperir yn y ddeddfwriaeth[1].<br><br>Mae'r hysbysiad o'r penderfyniad a gyhoeddwyd gan PDC yn cofnodi bod yr hysbysiad hwn wedi'i ddyddio 18 Tachwedd 2024 a'i nodi fel un wedi'i anfon trwy e-bost a'r post. Darparwyd copi o lythyr y penderfyniad gan yr Apelydd ac ni wadodd iddo dderbyn y llythyr dan sylw ar y dyddiad hwnnw.<br><br>Cadarnhaodd yr hysbysiad o'r penderfyniad a gyhoeddwyd fod y cais y tu allan i'r cyfnod apelio. Nid oedd unrhyw ddarpariaethau o fewn y ddeddfwriaeth i roi estyniad i gyfnod apelio, a ph'run bynnag, nid oedd unrhyw sail i allu nodi amgylchiadau eithriadol fel achos yr |

[1] Rheoliad 10 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | oedi wrth wneud y cais am ganiatâd i apelio.<br><br>Ni fyddai Tribiwnlys Apêl yn cael ei gynnull i ystyried apêl yr Apelwyr. Gwrthodwyd yr apêl. |
| APW/008/2023-024/AT: Y Cynghorydd Steven Bletsoe \| Panel Beirniadu Cymru | Y Cynghorydd Steven Bletsoe | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | Torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1), 14(1)(a), 14(1)(c) a 14(1)(e) o'r Cod Ymddygiad – **Apêl mewn perthynas â sancsiynau yn unig.** | Adroddiad dyddiedig 3 Ionawr 2025 | Cyfeirio'r mater yn ôl at Bwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gydag argymhelliad y dylid atal yr Apelydd am 10 wythnos. | Cynhaliwyd Tribiwnlys Apêl gan Lywydd PDC i ystyried apêl gan yr Apelydd yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir a Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod yr Apelydd wedi torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1), 14(1)(a), 14(1)(c) a 14(1)(e) o'r Cod Ymddygiad a dylai dderbyn cosb o waharddiad chwe mis.<br><br>Adroddodd y Tribiwnlys Apêl, fel rhan o'r sylwadau a wnaed, fod yr Apelydd wedi derbyn bod y Cod wedi'i dorri ond ni allai dderbyn lefel y gosb, a oedd yn ei farn ef, yn ormodol. Dyma oedd ffocws yr apêl a chyhoeddodd PDC gyfarwyddyd y byddai'r apêl yn mynd rhagddo mewn perthynas â sancsiynau yn |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | unig. Penderfynodd PDC nad oedd gan yr apêl mewn perthynas â thorri'r elfen Cod Ymddygiad unrhyw obaith rhesymol o lwyddiant.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Apêl wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan y partïon, Canllaw Gosbau PDC, a Chanllawiau OGCC. Roedd hefyd wedi ystyried pwrpas cosbau sef darparu ymateb disgyblu i dorri'r Cod, ac i roi'r gosb ar gofnod cyhoeddus, atal camymddwyn yn y dyfodol, hyrwyddo diwylliant o gydymffurfio a meithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.<br><br>Yn gyntaf, asesodd y Tribiwnlys Apêl ddifrifoldeb yr achosion o dorri'r Cod gan yr Apelydd gan roi sylw arbennig i natur, maint a nifer y toriadau. Nid oedd o’r farn bod y toriadau yn cynnwys y math mwyaf difrifol o dorri’r Cod a gyfeirir fel arfer at Bwyllgorau Safonau yng Nghymru.<br><br>Nododd y Tribiwnlys Apêl hefyd fod y Pwyllgor Safonau wedi |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | penderfynu bod yr Apelydd wedi torri chwe pharagraff o'r Cod. Fodd bynnag, roedd y rhain i gyd mewn perthynas â'r un digwyddiadau yn ymwneud â chofnodion un cyfarfod penodol. Fodd bynnag, roedd y Tribiwnlys Apêl o'r farn bod patrwm ymddygiad wedi bod o ran methiant dro ar ôl tro i ddatgan buddiannau personol a oedd yn rhagfarnu.<br><br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn bod y toriadau wedi bod yn anfwriadol ac wedi deillio o gam-dybio'r Cod yn hytrach na'i dorri'n fwriadol.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys Apêl ganlyniadau'r toriadau i unigolion, y cyhoedd ehangach a'r Cyngor yn gyffredinol; yn ogystal â'r dystiolaeth o achosion blaenorol a ddarparwyd gan yr Apelydd, yn y cyd-destun gwleidyddol ehangach yng Nghymru ac mewn perthynas ag achosion diweddar a oedd gerbron Pwyllgor Safonau'r Cyngor a lle'r oedd toriadau wedi bod yn fwy difrifol, ac eto roedd y gosb a osodwyd wedi bod yn llai llym na'r hyn a osodwyd yn yr achos hwn. |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Ystyriodd y Tribiwnlys Apêl y Canllaw Cosbau a daeth i'r casgliad bod ymateb disgyblu wedi'i gyfyngu o ran amser yn briodol i atal camau o'r fath yn y dyfodol, ac i symud yr Apelydd o'r Awdurdod Perthnasol dros dro i ddiogelu'r safonau a osodir gan y Cod ac i roi sicrwydd i'r cyhoedd bod safonau'n cael eu cynnal. Nododd o Baragraff 39.5 o'r Canllaw Cosbau bod gwaharddiad o lai nac un mis yn annhebygol o gyflawni amcanion y gyfundrefn cosbau.<br><br>Ystyriwyd ffactorau lliniarol a gwaethygol, yn ogystal ag achosion adroddiadau eraill ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd o Hawliau Dynol.<br><br>I gloi, daeth y Tribiwnlys Apêl i'r casgliad bod cyfnod o waharddiad dros dro o chwe mis yn ormodol, gan mai dyma'r gosb uchaf y gellid ei gosod gan y Pwyllgor Safonau, ac roedd o'r farn nad oedd y toriadau yn yr achos hwn yn ormodol. |

| Dolen i'r achos | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb sy'n codi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl gyfeirio'r mater yn ôl at Bwyllgor Safonau'r Cyngor gydag argymhelliad y dylid atal yr Apelydd am 10 wythnos. |

This page is intentionally left blank

Eitem 9 ar y Rhaglen

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2025** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel uchod** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi'i sefydlu yng Nghymru, o ganlyniad i'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Penn ar y Drefn Foesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

## 2. CYFARFODYDD FFORWM

2.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, ni gynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm.

2.2 Rhannwyd nodiadau'r Cadeirydd o gyfarfod y Fforwm ar 27 Ionawr 2025 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 4 Chwefror 2025. Trafodwyd y cyfarfod yma o'r Fforwm yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 6 Chwefror.

2.3 Mae cyfarfod nesaf y Fforwm wedi'i drefnu ar 23 Mehefin 2025.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, mewn perthynas â nodiadau'r Fforwm - *"gall y nodiadau gael eu dosbarthu i Bwyllgorau Safonau, ar yr amod na ellid adnabod unrhyw achwynydd neu gynghorydd unigol y cwynwyd amdano. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn/ar ôl pob cyfarfod."*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Safonau 2024/2025** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I'r Pwyllgor Safonau gymeradwyo'r adroddiad drafft yn barod ar gyfer cyfarfod llawn nesaf y Cyngor Sir** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol ar y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Sir.

1.2 Yr adroddiad sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd (**Atodiad 1**) yw drafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025. Mae cyfnod yr adroddiad yn mynd o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.

1.3 Nid yw'r adroddiad drafft wedi'i gwblhau gan fod y broses o Arweinyddion Grwpiau yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'u dyletswyddau newydd fel Arweinyddion Grwpiau yn parhau. Mae manylion am y broses honno wedi eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol drafft. Rhagwelir y bydd y broses hon yn dod i ben yn ystod haf 2025 yn barod i adroddiad terfynol y Pwyllgor gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir llawn ym Medi 2025.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 I'r Pwyllgor Safonau gytuno

2.1.1 cynnwys yr adroddiad drafft a'i atodiadau, fel sydd wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1** o'r adroddiad hwn;

2.1.2 bod yr adroddiad blynyddol drafft presennol ar gyfer 2024/2025 (**Atodiad 1**) yn cael ei ddiweddaru yn unol â gwybodaeth a gafwyd yn ystod y broses o gasglu gwybodaeth gan yr Arweinyddion Grwpiau; a

2.1.3 bod unrhyw newidiadau i'r adroddiad blynyddol (**Atodiad 1**) yn cael eu gwneud un ai mewn cyfarfod anffurfiol neu drwy ohebiaeth gyda holl

aelodau'r Pwyllgor, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cadeirydd, yn dilyn trafodaeth â'r Swyddog Monitro.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | Medi 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/2025 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno adroddiad statudol blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Mared Wyn Yaxley<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro<br>mwycs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Safonau'n bwyllgor statudol sy'n gyfrifol am hybu a chynnal safonau ymddygiad o ansawdd gan Gynghorwyr Sir Ynys Môn a Chynghorwyr Tref a Chymuned yr ardal, gan eu cefnogi i ddilyn eu Cod Ymddygiad.

1.2 Mae'n ofyniad statudol i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor cyn gynted â phosibl ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad egluro sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau statudol yn ystod y cyfnod perthnasol.

1.3 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno ar yr adroddiad atodol, ac yn ei gyflwyno.

## 2. Argymhelliad

2.1 Fod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir, ac yn cael ei gymeradwyo cyn pen 3 mis o'i dderbyn.

2.2 Fod y Cyngor yn cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026 (Atodiad 3 yr Adroddiad) tra'n derbyn y gallai rhai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.



DRAFT

# CYNNWYS

| ADRAN | TEITL |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Aelodaeth y Pwyllgor |
| 3 | Cyflawniadau'r Pwyllgor yn ystod 2024/2025 |
| 4 | Edrych Ymlaen at 2025/26 |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Rôl a Chyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau |
| Atodiad 2 | Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 gyda manylion gweithredu wedi eu nodi |
| Atodiad 3 | Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-2026 |
| Atodiad 4 | Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorau Tref a Chymuned – rhifyn 7 (Medi 2024) |
| Atodiad 5 | Newyddlen y Pwyllgor Safonau at y Cynghorwyr Sir – rhifyn 7 (Hydref 2024) |
| Atodiad 6 | Ffurflen Arweinyddion Grwpiau ar gyfer adrodd ar eu dyletswydd fel Arweinydd Grŵp 2024/2025 |

DRAFT

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# 1. Rhagair



**Trefor Owen**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (Awst 2025)**

Ymgymerais â'r rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor yn 2024, ar ôl bod yn Is-gadeirydd ers Chwefror 2024. Rhys Davies oedd yn cyflawni'r rôl o'm blaen. Er bod cyfnod Rhys fel Cadeirydd wedi dod i ben yn gynt na'r disgwyl oherwydd amgylchiadau personol, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Rhys, ar ran aelodau'r Pwyllgor, am ei waith. Mae Rhys yn parhau fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, ac mae ei gyfraniad yn werthfawr iawn.

Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau, ac mae'r aelodau wedi aros yr un fath ar gyfer eleni. Hoffwn longyfarch Brace Griffiths ar gael ei ethol yn Is-gadeirydd yn Chwefror 2025.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi amrywio'n fawr, ac mae'r Pwyllgor wedi bod yn brysur yn bodloni'r gofyniad statudol i hybu a chynnal safon dda o ymddygiad ymhlith Cynghorwyr Sir Ynys Môn a Chynghorwyr Tref a Chymuned, gan gynnwys cynorthwyo aelodau i lynu wrth y Cod Ymddygiad.

Cafwyd 4 cyfarfod ffurfiol yn ogystal â 4 cyfarfod anffurfiol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn ychwanegol at drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp, aelodau etholedig, clercod Cynghorau Cymuned a sesiynau hyfforddi. Roedd y rhan fwyaf o'n gwaith yn cynnwys gweithredu'r materion a amlygwyd wrth adolygu'r cofrestrau o ddiddordebau sampl o aelodau, yn ogystal â sicrhau bod materion pwysig mewn perthynas ag ymddygiad yn cael sylw teilwng mewn cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grŵp, yn ystod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ac yn ein Newyddlenni / Cyfathrebiadau gydag Aelodau. Mae'r Pwyllgor yn falch o fod wedi trefnu pedwar sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2024. Cynrychiolwyd Ynys Môn hefyd yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn fformat tebyg i'r fformat a gyflwynwyd y llynedd. Rwy'n gobeithio ei fod yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn ddiolch i aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir, ac aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r Clercod am eu cydweithrediad mewn perthynas â materion ymddygiad unwaith eto eleni. Mae deg egwyddor bywyd cyhoeddus yn glir, ac mae'r Cod Ymddygiad yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Gobeithir y bydd ymdrechion y Pwyllgor yn sicrhau bod gofynion y Cod yn cael eu gwneud yn glir i aelodau, ac y bydd hyn o gymorth iddynt wrth iddynt weithio er budd yr ardal a'i hetholwyr.

**Trefor Owen (Cadeirydd)**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English



DRAFT

## 2. Aelodaeth y Pwyllgor

Mae’r Pwyllgor Safonau’n bwyllgor statudol sydd â 9 aelod. Ceir gwybodaeth am rôl a chyfrifoldebau’r Pwyllgor yn **Atodiad 1**. Mae manylion am y Pwyllgor a’i aelodaeth ar gael yn y fan yma.

A. Aelodau Annibynnol: Penodir y pum aelod annibynnol am hyd at ddau dymor o bedair mlynedd. Rhaid penodi'r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Gwneir y penodiadau am gyfnod o bedair blynedd neu (os yw'n swydd wag achlysurol) hyd nes y byddai tymor swydd deiliad blaenorol y swydd wedi dod i ben. Gall unigolyn ei ail-ethol i’r Gadair/fel Is-Gadeirydd.

B. Aelodau’r Cynghorau Tref a Chymuned: Penodir dau aelod er mwyn cynrychioli’r cynghorau tref a chymuned yn dilyn etholiadau llywodraeth leol. Bydd y cynrychiolwyr yn eistedd ar y Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu hyd nes nad yw’r unigolion a benodwyd yn aelodau o’r cyngor cymuned mwyach, pa un bynnag sy’n digwydd gyntaf. Gall aelodau cyngor tref a chymuned gael eu hailbenodi am un tymor arall, gyda chytundeb cynghorau tref a chymuned Ynys Môn.

C. Aelodau’r Cyngor Sir: Gwneir penodiadau am ddau gynrychiolydd drwy benderfyniad y Cyngor.

Ceir dolen at swydd ddisgrifiadau aelodau’r Pwyllgor yma.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
|  | Trefor Owen (Cadeirydd ers Medi 2024) | Aelod Annibynnol |  | Brace Griffiths (Is-gadeirydd ers Chwefror 2025) | Aelod Annibynnol |
|  | Rhys Davies (Cadeirydd o Chwefror 2024 hyd nes Awst 2024) | Aelod Annibynnol |  | John R Jones (Cadeirydd hyd nes Chwefror 2024) | Aelod Annibynnol |
|  | Gill Murgatroyd | Aelod Annibynnol |  | Margaret Murley Roberts | Cynrychiolydd Cyngor Sir |
|  | Dafydd Rhys Thomas | Cynrychiolydd Cyngor Sir |  | Iorwerth Roberts | Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned |
|  | Margaret Thomas | Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned | | | |

DRAFT

## 3. Cyflawniadau’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, wedi ei gwblhau yn unol â gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, er bod paratoi adroddiad blynyddol yn arfer yn y Cyngor hwn ers sawl blwyddyn. Mae’n adrodd ar waith y Pwyllgor rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024-2025 (fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym Medi 2024) gyda manylion am weithrediad y Pwyllgor yn erbyn yr amcanion hyn yn ystod y flwyddyn wedi eu nodi yn **Atodiad 2.**Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, cododd rhai materion na ragwelwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae’r manylion am y rhain hefyd wedi eu cynnwys yn yr Atodiad.

Gellir cael mynediad at Raglenni, Adroddiadau a Chofnodion cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor ar dudalen gartref y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor – dolen yma.

Tynnir sylw penodol at y materion hyn:

- **Cwynion ynghylch aelodau Cyngor Sir / Cynghorau Tref a Chymuned yn Ynys Môn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Cynghorwyr Sir: Derbyniwyd gohebiaeth am 2 achos lle penderfynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) beidio ymchwilio. Mae 1 achos cyfredol ble mae’r OGCC yn ymchwilio, ac mae 1 achos wedi’i gyfeirio at y Swyddog Monitro i’w ystyried gan Bwyllgor Safonau’r Cyngor.

Cynghorwyr Tref a Chymuned: Derbyniwyd gohebiaeth am 3 achos lle penderfynodd OGCC beidio ymchwilio. Mae 1 achos yn cael ei ymchwilio gan OGCC ar hyn o bryd.

Y ddau achos sy’n cael eu harchwilio ar hyn o bryd gan OGCC yw’r un materion y cyfeirir atynt o fewn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/24. Nododd y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ffurfiol ar 6 Chwefror 2025, ei bryderon ynghylch yr oedi rhwng y cyfnod o gyflwyno cŵyn i OGCC a’r cyfnod dod i benderfyniad. Cyfeiriwyd y 2 fater sy’n cael eu harchwilio gan OGCC ar hyn o bryd yn wreiddiol ym mis Chwefror 2024. Roedd y mater a gyfeiriwyd i’r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2024 wedi bod yn destun ymchwiliad ers Mehefin 2023.

Cyfeiriwyd un adroddiad i ddwylo’r Pwyllgor Safonau gan OGCC yn ystod y cyfnod hwn. Cynhaliwyd cyfarfod Penderfyniad dechreuol ar 26.02.2025, a chynhelir Gwrandawiad yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor. Bydd casgliad y mater hwnnw’n cael ei nodi yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-26.

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau gan Banel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Panel Dyfarnu Cymru a’r OGCC yn cyhoeddi crynodeb Cymru gyfan ar yr achosion maen nhw wedi’u hystyried ar eu gwefannau. Adroddir ar yr achosion hyn yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau, ac mae crynodeb hefyd wedi’i gynnwys yn y Newyddlenni/Cyfathrebiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Safonau.

- **Gwaith gyda Chynghorau Tref a Chymuned yr Ardal.**

DRAFT

Trefnwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2024. Anogwyd y 40 Cyngor Tref a Chymuned ar yr ynys i fynychu un o'r pedwar sesiwn a drefnwyd yn Gymraeg a Saesneg, yn ystod y dydd a gyda'r nos. Yn anfoddus, nid oes llawer o ddiddordeb wedi bod ar gyfer digwyddiadau hyfforddiant blaenorol, ac mae'r patrwm yn parhau gyda dim ond hanner y Cynghorau Tref a Chymuned yn anfon cynrychiolydd i'r sesiynau hyfforddiant hyn.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Cynghorau Tref a Chymuned hynny sydd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau blaenorol.

Roedd Rhaglen Waith y Pwyllgor yn nodi y byddai'n cynnal adolygiad yn 1 Cyngor Cymuned lle roedd pryderon wedi'u codi gyda'r Pwyllgor. Roedd yn fwriad cynnal yr adolygiad hwn yn ystod Gwanwyn 2023, ond gofynnodd Clerc y Cyngor Cymuned i ohirio'r adolygiad. Er gwaethaf ymdrechion i drefnu dyddiad amgen, nid oes cytundeb wedi'i wneud hyd yma. Oherwydd yr amser aeth heibio ac amharodrwydd y Cyngor Cymuned i drefnu dyddiad ar gyfer yr adolygiad, cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau na fyddai'n cysylltu â'r Cyngor Cymuned ymhellach mewn perthynas â'r cynnig hwn i gynnal adolygiad gwirfoddol ar y Gofrestr Diddordebau.

Mynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar 19 Medi 2024 i gyflwyno gwybodaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2024, ac a oedd yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned. Anfonwyd newyddlen, oedd yn atgyfnerthu'r negeseuon hyn i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi 2024.

Bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i gysylltu gyda'r Fforwm, fel ffordd o gyfathrebu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned.

- **Protocol Datrysiad Lleol.**

<u>Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir:</u>

Er bod pryderon wedi'u dwyn i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn, ni wnaed ceisiadau i Gadeirydd y Pwyllgor weithredu dan drefniadau'r Protocol. Ymdriniwyd â'r pryderon lefel isel am ymddygiad aelodau'n fewnol drwy brosesau grwpiau gwleidyddol.

O ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan yr OGCC o ran coladu'r Protocol Datrysiad Lleol gan awdurdodau yng Nghymru, a chaffael barn gyfreithiol ar statws rhai trefniadau o fewn y Protocol Datrysiad Lleol, cynhaliwyd adolygiad i ystyried Protocol y Cyngor ym mis Chwefror 2024. Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ac mae gweithredu'r newidiadau arfaethedig, ar ôl trafod gydag Arweinyddion Grŵp, yn rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2025-26.

Atgoffir aelodau o argaeledd y Protocol, er bod y Pwyllgor yn gobeithio na fydd ei angen. Atgoffir aelodau o'r egwyddorion pe byddent yn dymuno defnyddio'r Protocol Datrysiad Lleol; dylid codi pryderon cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad dan sylw, a dylid ymdrin â'r mater ar unwaith i sicrhau bod y broses yn cael chwarae teg. Mae hyn yn hollbwysig at lwyddiant y broses.

<u>Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned:</u>

Mae Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau tref a chymuned wedi'i ddatblygu gan Un Llais Cymru, ac fe anogir Cynghorau Tref a Chymuned i'w fabwysiadu. Mae Protocol sydd wedi'i ddatblygu'n lleol ar gael hefyd; nid yw wedi'i ddefnyddio ers ei fabwysiadu.

- **Cyngor gan y Pwyllgor ar hyfforddiant i Aelodau ac Arweinwyr Grwpiau**

Mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno gan y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau. Mae'r adroddiadau hyn yn ystyried cynnwys y Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Aelodau, a'r hyfforddiant a gwblhawyd. Gall y Pwyllgor gyfrannu wrth i'r Rhaglen gael ei datblygu ac ystyried i ba raddau mae Aelodau'n cymryd rhan yn y Rhaglen Hyfforddiant.

Fel rhan o'i waith yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau wedi bod yn trafod gyda'r Arweinyddion Grŵp a'r Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol i ddatblygu sesiynau hyfforddi ar gyfer Arweinyddion Grŵp. Mae rhan gyntaf y rhaglen hyfforddiant yn cynnwys proffilio personoliaeth DISC ar gyfer bob Arweinydd Grŵp, fydd yna'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y sesiynau hyfforddi unigol. Bydd gwaith pellach yn parhau yn ystod rhaglen waith flwyddyn nesaf, a bydd adroddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau.

Mae hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys yn Rhaglen Waith flynyddol y Pwyllgor. Eleni roedd yn cynnwys:

- ***Hyfforddiant Gwrandawiadau:***

  Darparwyd hyfforddiant ar gynnal gwrandawiadau ar gyfer atgyfeiriadau ar y Cod Ymddygiad gan OGCC gan ddarparwr allanol ym mis Medi 2024, yng ngoleuni'r 3 achos oedd yn cael eu harchwilio gan y OGCC ar y pryd. Cynhaliwyd yr hyfforddiant fel digwyddiad 1 diwrnod yn y dosbarth, a gwahoddwyd holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i fod yn bresennol. O ganlyniad i'r sesiwn hyfforddiant hwn, adolygodd a diwygiodd y Pwyllgor Safonau ei Weithdrefn Gwrandawiadau. Mae'r ddogfen Weithdrefn wedi'i chyhoeddi.

- ***Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad***

  Yn dilyn etholiadau Mai 2022, trefnodd y Pwyllgor Safonau sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor. Mynychodd mwyafrif yr aelodau'r hyfforddiant hwnnw, a threfnwyd sesiynau gloywi yn ystod 23/24. Mae'r 35 aelod etholedig cyfredol wedi derbyn hyfforddiant cod ymddygiad mewn ystafell ddosbarth.

  Fel Pwyllgor, credwn ei bod hi'n hanfodol bod pob Aelod yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn yr Adroddiad Penn y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fod yn orfodol i bob Aelod.

- **Asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr eu grwpiau.**

Mae copi o'r templed a ddefnyddwyd ar gael yn **Atodiad 6.** Mae'n debyg i'r ffurflen a ddefnyddiwyd yn flaenorol, er mwyn cyfeirio ati'n rhwydd, ond gyda mân newidiadau mewn ymdrech i gynorthwyo'r trafodaethau rhwng Arweinyddion Grŵp ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

MWY O FANYLION I'W CYNNWYS AR ÔL I'R PWYLLGOR SAFONAU GYFARFOD Â'R ARWEINYDDION GRWPIAU YN HAF '25



DRAFT

- **Ymyrraeth Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor mewn mater ymddygiad yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

Yn dilyn cyfeiriad gan y Swyddog Monitro ynghylch 2 aelod, penderfynodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor y byddent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion at bwrpas arsylwi ymddygiad aelodau. Cychwynnwyd ar y broses arsylwi ym mis Mawrth 2024 ac roedd y gwaith hwn yn parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/2025.

Nodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cwrdd â'r Arweinyddion Grŵp perthnasol i drafod ymddygiad 2 aelod. Ym marn y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cymerwyd camau adfer digonol yn dilyn y cyfarfodydd hyn, a daeth y ddau fater i ben yn foddhaol.

Mynychodd yr aelodau annibynnol (mewn parau) gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2024, yn dilyn cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Y bwriad oedd goruchwylio ymddygiad aelodau ar ôl derbyn pryderon mewn perthynas ag ymddygiad 2 aelod (nad oeddent yn Aelodau’r Pwyllgor) yng nghyfarfod mis Chwefror 2024 y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Bwriad y Pwyllgor Safonau oedd goruchwylio am gyfnod o 6 mis, yn amodol ar adolygiad ar ôl 3 mis. Efallai byddair cyfnod hwn yn cael ei ymestyn neu ei gwtogi, fel y gwelir yn briodol. Yn eu hadolygiad (yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ym mis Mai 2024), penderfynodd yr Aelodau annibynnol ddod â’r ymarferiad goruchwylio i ben am eu bod yn fodlon â’r hyn y gwelsant.

Adroddwyd y canfyddiadau cyffredinol i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion mewn llythyr dyddiedig 16 Mai 2024. Roedd y rhain yn cynnwys arsylwadau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau oedd yn nodi bod ymddygiad a sylwadau’r rheiny oedd yn bresennol yn barchus ac na ail-adroddwyd yr ymddygiad oedd yn destun pryder yn wreiddiol; cafodd gyfranwyr gyfle teg i siarad; roedd aelodau’r pwyllgor wedi paratoi ar gyfer y cyfarfodydd ac yn ymwybodol o’r trefniadau. Canmolwyd y Cadeirydd hefyd am fod yn awdurdodol a theg, ac am osod safon dda o gwrteisi a sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle teg i wneud cyfraniadau llafar.

Cysylltodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyda’r adran Gynllunio gan argymell y dylid darparu hyfforddiant i aelodau. Mae hyfforddiant ar gyfer aelodau’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn fandadol, ond teimlwyd y byddai hyfforddiant mwy cyffredinol ar gyfer yr holl aelodau etholedig yn ddefnyddiol er mwyn eu bod yn ymwybodol o faterion Cynllunio a’r broses i’w dilyn. Paratowyd canllaw gan y Swyddogion Cynllunio, ac fe’i rhannwyd gyda’r Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni briff y Pwyllgor. Cafodd y ddogfen ei rhannu gydag Aelodau ar 10 Mehefin 2024.

- **Adolygiadau o’r tair Cofrestr o Ddiddordebau**

Elfen bwysig o waith y Pwyllgor yn ystod 2024/2025 oedd cynnal adolygiadau o Gofrestrau Diddordebau sampl o aelodau’r Cyngor Sir. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan y pum aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, gyda phob aelod yn adolygu Cofrestrau 4 aelod etholedig, wedi eu dewis ar hap, ar sail cydbwysedd gwleidyddol, a gyda phob arweinydd grŵp yn destun adolygiad. Cwblhawyd yr adolygiadau hyn yn ystod Ionawr 2024 a chafodd y camau a nodwyd eu cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25.

Adroddwyd yn fanwl ar y broses adolygu mewn adroddiadau a gyflwynwyd yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2024 a Chwefror 2025.



DRAFT

Cymerodd y Pwyllgor Safonau y camau canlynol o ganlyniad i'r ymarferiad: - Adolygiadau Cofrestrau o Ddiddordeb Aelodau Etholedig

- **Caniatadau Arbennig**

Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau ystyried ceisiadau ar gyfer caniatadau arbennig er mwyn galluogi Aelodau, na all gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol sylweddol (rhagfarnu), i wneud hynny dan amgylchiadau y'u diffinnir gan statud.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais am ganiatâd arbennig yn ystod y cyfnod adrodd.

Atgoffir aelodau bod modd iddynt ymgeisio am ganiatâd arbennig, fel Cynghorwyr Sir, Aelodau Cyfetholedig neu Gynghorwyr Tref a Chymuned.

- **Newyddlenni**

Mae wedi bod yn arferiad gan y Pwyllgor Safonau i anfon Newyddlenni ar gyfer (a) y Cynghorau Tref a Chymuned a (b) Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor (ddwywaith y flwyddyn). Fodd bynnag, nodwyd yn yr adroddiad blynyddol blaenorol bod y Pwyllgor yn teimlo bod paratoi'r Newyddlenni'n gofyn am lawer o adnoddau'r Pwyllgor a'r swyddogion ategol, heb fawr o ymateb i'r ceisiadau/materion a godwyd ynddynt, ac felly y byddai'n ailystyried eu cynnwys i'r dyfodol.

Mae'r Newyddlen a ddosbarthwyd i Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi 2024 ar gael yn **Atodiad 4** ac mae'r Cylchlythyr i Gynghorwyr Sir a anfonwyd ym mis Hydref 2024, ar gael yn **Atodiad 5**.

Yn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Chwefror 2025, cytunodd y Pwyllgor i roi cynnig ar ddull gweithredu arall er mwyn rhannu ei negeseuon allweddol gyda'r Cynghorwyr Tref a Chymuned ac Aelodau CSYM o hyn ymlaen. Bydd gwaith pellach mewn perthynas â hyn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/2026.

DRAFT

# 4. Edrych Ymlaen at 2025/26

Mae Rhaglen Waith arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-2026 wedi ei gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae gofynion statudol ar y Pwyllgor Safonau (gweler **Atodiad 1**). Fodd bynnag, mae penderfynu sut mae gweithredu o fewn y gofynion statudol hynny yn fater o ddewis lleol i raddau helaeth.

Cytunwyd y byddai'r model rhyngweithiol a ddatblygwyd gan y Pwyllgor mewn blynyddoedd a fu yn cael ei gyfyngu yn 2024/25, oherwydd bod y gwaith ataliol estynedig a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau wedi bod yn effeithiol, gyda nifer y cwynion ynghylch ymddygiad aelodau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn isel ers sawl blwyddyn, a bod disgwyl i un o'r 3 achos oedd dan archwiliad gan OGCC yn adroddiad y llynedd gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau.

Yn dilyn Penderfyniad Dechreuol yn Chwefror 2025, penderfynwyd y dylid cynnal Gwrandawiad. Mae cynnal Gwrandawiad yn y ffordd hon yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Safonau a'i swyddogion cefnogol. Trefnir y Gwrandawiad ym Mai 2025.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 2 achos arall yn destun ymchwiliad gan OGCC a rhagwelir y gellid cyfeirio un neu fwy o'r materion hyn at y Pwyllgor Safonau ar gyfer penderfyniad dechreuol ac, efallai, gwrandawiad. Byddai'n rhaid i'r Pwyllgor flaenoriaethu ymateb i gyfeiriadau o'r fath. Ar sail hynny, ac i sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i gyflawni'r gofyniad statudol hwn, bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn cael ei chyfyngu yn ystod 2025/26. Felly, am yr ail flynedd yn olynol, ni fydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal unrhyw adolygiadau o'r cofrestrau, naill ai'r Cyngor Sir neu'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn blaenoriaethu ei waith ac yn ailgyfeirio ei adnoddau i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei ofynion statudol a bydd yn parhau i gefnogi Aelodau'r Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned i gydymffurfio â'r gofynion o dan eu Cod Ymddygiad.

DRAFT

# Adroddiad Blynyddol
# Pwyllgor Safonau:
# 2024-2025

DRAFFT

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## ATODIAD 1

## Rôl a Chyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau:

Mae'n ofyn statudol bod gan y Cyngor Sir Bwyllgor Safonau. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgorau safonau yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdod perthnasol a'u cynorthwyo i gydymffurfio â
Chod Ymddygiad yr aelodau.

I'r perwyl hwn, mae rolau a swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau, mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig) a Chynghorau Tref/Cymuned yn cynnwys:-

- hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau;
- cynorthwyo aelodau i gadw at eu Cod Ymddygiad;
- cynghori'r awdurdod ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau;
- cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
- ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru.

Yn ogystal, mae dyletswyddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar y Pwyllgor ers mis Mai 2022, sef:

- monitro cydymffurfiaeth yr Arweinwyr Grŵp gyda'i dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.
  Rhaid i bwyllgor safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddiant, neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob gweinyddiaeth, dylai
  hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid adolygu hyn bob blwyddyn.
- cyhoeddi Adroddiad Blynyddol:
  Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Safonau o fewn tri mis o'i dderbyn.

Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:

- ddisgrifio sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflawni ei swyddogaethau;
- gadarnhau bod protocol lleol ar waith ar gyfer datrys cwynion, a darparu asesiad o'i effaith;
- cynnwys dadansoddiad o gwynion. Rhaid i'r dadansoddiad hwn gynnwys gwybodaeth am nifer y cynghorwyr sydd wedi bod yn destun cwyn a gadarnhawyd, ac a oeddent wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ai peidio, cyn neu ar ôl i'r gŵyn ddod i law.
- darparu crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan OGCC yn ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau;
- cynnwys crynodeb o'r hysbysiadau a roddwyd i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru, sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r Panel ar achosion posibl o dorri cod ymddygiad yr aelodau;
- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i aelodau ac arweinyddion grwpiau a sut mae'r cyngor hwnnw wedi'i roi ar waith;
- asesiad o sut y mae'r Pwyllgor wedi gweithio gyda'r cynghorau tref a chymuned yn ei ardal i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr tref a chymuned;

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

DRAFT

- cynnwys asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr eu grwpiau, gan gynnwys y cyngor y mae'r pwyllgor safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i awgrymu.

DRAFFT

# ATODIAD 2

**Rhaglen Waith ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2024/2025 – (cadarnhawyd gan y Cyngor Llawn ar 26.09.2024) ynghyd â manylion am gyflawniadau yn erbyn yr amcanion.**

| Rhif | Eitemau | Cam Gweithredu | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor Llawn | • Fod y Pwyllgor yn dechrau ystyried a gweithio ar yr Adroddiad Blynyddol cyn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2025<br>• Fod y Pwyllgor yn datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/2025 (a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2025/2026) ar ddiwedd tymor 2024/2025.<br>• Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â'u cyfrifoldebau adrodd dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r broses i'w dilyn rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau. | • Trafodwyd y broses adrodd ar gyfer Arweinyddion Grŵp yn ystod 2023/24 mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 25/10/2024. Gwnaed diwygiadau i'r ffurflen adrodd.<br>• Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor Safonau y ffurflen adrodd ddiwygiedig i'r Arweinyddion Grwpiau ar 30/01/2025.<br>• Rhannwyd y ffurflenni cais gyda'r Arweinyddion Grŵp yn ogystal â chais i ddychwelyd y ffurflenni wedi'u cwblhau i'r Swyddog Monitro erbyn 30/04/2025.<br>• Disgwylir ffurflenni wedi eu cwblhau ac yna trefnu'r cyfarfodydd rhwng bob Arweinydd Grŵp ac Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn ystod Haf 2025.<br>• Mae gwybodaeth o'r cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grwpiau wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn fis Medi 2025. |
| 2 | Gweithredu'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned | • Pan fo'n ofynnol / yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. | • Trafodwyd Protocol Datrysiad Lleol y Cyngor Sir yn y Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2025.<br>• Cynigiwyd diwygiadau. Bydd gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o'r Rhaglen Waith ar gyfer 2025 - 2026, er mwyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig.<br>• Nifer yr achosion a gyfeiriwyd dan y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer CSYM: - Dim<br>• Nifer yr achosion a gyfeiriwyd dan y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer CTaCh: - Dim |
| 3 | Cynnig a darparu | • Rhaid gwneud y trefniadau hyn ar ddechrau bob gweinyddiaeth a | • Mynychodd Gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda'r |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hyfforddiant sydd ar gael i arweinwyr pleidiau gwleidyddol<br>Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau<br>• Cynnwys Uwch Swyddogion? | rhaid cynnal hyfforddiant cyn pen 6 mis o'r etholiad, a rhaid ei adolygu'n flynyddol.<br>• Bydd y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grŵp i gwblhau hyfforddiant a ddatblygir dan sgôp Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol a/neu drwy'r CLILG.<br>• Yn lleol, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio gyda'r adran Hyfforddiant (AD) i drefnu Hyfforddiant 1-1 ar gyfer Arweinyddion Grŵp er mwyn eu cefnogi gyda'u rolau fel arweinwyr statudol ar faterion sy'n cael eu hystyried yn berthnasol ar gyfer Arweinyddion Grŵp lleol. | Arweinyddion Grŵp ar 10/10/2024 i gyflwyno'r rhaglen a argymhellwyd gan yr Adain Hyfforddiant (Adnoddau Dynol).<br>• Darparwyd diweddariad gan y Rheolwr Hyfforddiant AD yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 06/02/2025.<br>• Mae gwaith yn parhau o ran proffilio DISC a sesiynau hyfforddi dilynol, a bydd hyn wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Waith ar gyfer 2025-2026. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd arweinyddion grŵp dros ymddygiad eu haelodau | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd i adrodd mewn cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau yn dilyn bob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau a chyflwyno'r Newyddlen arfaethedig.<br>• Adrodd / cyfathrebu pellach i'w wneud ar gais.<br>• Unrhyw waith sydd ei angen fel rhan o ddyletswydd y Pwyllgor Safonau i asesu a ddylid rhyddhau arweinyddion grŵp o'u dyletswyddau statudol. | • Cyfarfod yr Arweinyddion Grŵp (cyflwyniad gan Trefor Owen fel Is-gadeirydd) ar 18/07/2024 i gyflwyno canfyddiadau cyffredinol/gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad ar gofrestr diddordebau'r Aelodau (cafodd cyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp eu canslo ar 6 a 20 Mehefin).<br>• Cyfarfod yr Arweinyddion Grŵp (cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor) ar 10/10/24 i ddarparu diweddariad ar y materion a godwyd yn y cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2024; cyflwyno'r Newyddlen, trafod hyfforddiant mandadol Aelodau a rôl yr Arweinyddion Grŵp a hyfforddiant Arweinyddion Grŵp.*<br>• Cyfarfod Arweinyddion Grŵp (cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor) ar 30/01/2025 i gyflwyno ymateb arfaethedig y Pwyllgor i Ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei arfer o hysbysu Cynghorwyr pan mae cwynion yn cael eu cyflwyno.<br><br>*Cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda 2 arweinydd grŵp i drafod y cofnod hyfforddiant mandadol ar gyfer aelodau eu grŵp ym mis Rhagfyr 2024 ac Ionawr |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2025. Codwyd y pryder yn dilyn adroddiad y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2024. Gwnaed sylw cyffredinol yng nghyfarfod yr Arweinyddion Grwp ym mis Hydref 2024, ac heb nodi unrhyw welliant, trefnwyd cyfarfodydd gyda 2 Arweinydd Grŵp. |
| 5 | Cyfathrebu gydag aelodau CSYM / Cynghorau Tref a Chymuned | • Anfon newyddlenni yn dilyn y cyfarfodydd ffurfiol. | • Newyddlenni (Rhifyn 7) wedi'u hanfon mewn perthynas â chyfarfod Mehefin - Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi 2024 ac Aelodau CSYM ym mis Hydref 2024.<br>• Nid oes llawer o gyfathrebu wedi bod gan aelodau CTaCh/ CSYM mewn ymateb i Gylchlythyrau, ac felly mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu peidio parhau gyda'r arferiad hwn. Bydd dulliau cyfathrebu amgen yn cael eu trafod fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025-2026. |
| 6 | Cyfarfodydd | • Cyfarfodydd ffurfiol ym mis Mehefin a Rhagfyr 2024, yn ôl y gofyn.<br>• Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol. | • 13/05/2024 – cyfarfod anffurfiol<br>• 20/05/2024, 24/05/2024 a 03/06/2024 - cafodd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau gyfarfod gyda 4 Arweinydd Grŵp.<br>• 18/06/2024 – Cyfarfod ffurfiol<br>• 01/07/2024 – Cyfarfod anffurfiol (2)<br>• 06/09/2024 – Hyfforddiant gwrandawiadau (darparwr allanol)<br>• 25/10/2024 – Cyfarfod anffurfiol<br>• 11/12/2024 – Wedi canslo cyfarfod ffurfiol<br>• 24/01/2025 – Cyfarfod ffurfiol<br>• 06/02/2025 – Cyfarfod ffurfiol<br>• 26/02/20205 – Cyfarfod ffurfiol eithriadol<br><br>• Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol fel cyfarfodydd hybrid. Fel rheol, mae cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal fel cyfarfodydd rhithiol yn unig. |
| 7 | Adrodd am gwynion - Adroddiadau | • Bydd adroddiadau'n cael eu cynnwys yn Agenda ffurfiol y | • Chwarter 1 - anfonwyd neges e-bost ar 02/07/2024 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diweddaru Chwarterol | Pwyllgor (adrodd ddwywaith y flwyddyn).<br>• Mae adroddiad y Pwyllgor Safonau'n trafod unrhyw dueddiadau penodol o ran ymddygiad gwael. Angen parhau i adolygu hyn a sicrhau bod y broses yn gwarchod a pharchu (unrhyw rai o) ofynion cyfrinachedd yr OGCC mewn perthynas â'r materion hyn. | • Chwarter 2 - anfonwyd neges e-bost ar 01/10/2024<br>• Chwarter 3 - anfonwyd neges e-bost ar 18/01/2025<br>• Chwarter 4 - anfonwyd neges e-bost ar 02/04/2025<br>• Chwarteri 1-3 wedi'i cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 06/02/2025 |
| 8 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Annog holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol.<br>• Trefnu unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant AD. | • Cynigir hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn unol â'r Cynnig Hyfforddiant ar gyfer Aelodau.<br>• Darparwyd hyfforddiant 'gwrandawiadau' i holl Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau drwy'r Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol ym mis Ebrill 2024.<br>• Hyfforddiant 'gwrandawiadau' lleol wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Safonau drwy ddarparwr allanol 06/09/2024 |
| 9 | Hyfforddiant Cod Ymarfer ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned (hyfforddiant gloywi canol tymor) | • I drefnu, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Hyfforddi AD, hyfforddiant ar y Cod Ymarfer fydd yn cael ei gynnig i Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2024. | • 4 sesiwn wedi'u trefnu drwy Un Llais Cymru fel a ganlyn:<br>• Dydd Llun 14/10/2024 – 2:00pm-3:30pm Cymraeg<br>• Dydd Mercher 23/10/2024 – 2:00pm - 3:30pm Saesneg<br>• Dydd Iau 7/11/2024 – 6:30pm-8:00pm Cymraeg<br>• Dydd Iau 19/11/2024 – 6:30pm-8:00pm Saesneg<br>• Adroddiad ar bresenoldeb wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025. |
| 10 | Hyfforddiant Cadeirio - Herio Ymddygiad | • Cadeirydd / Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant sy'n cael ei drefnu drwy'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddelio gydag ymddygiad heriol gan aelodau a/neu'r cyhoedd. | • Ychwanegir y mater hwn at Raglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 25/26 |
| 11 | Sut i wneud cwyn | • Rhaid ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i gwynion yn erbyn Aelodau unwaith y cytunir beth fydd y broses ar gyfer 'cwynion lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn. | • Dal yn disgwyl am fanylion gan Lywodraeth Cymru am eu hymgynghoriad ar yr Adolygiad Penn. |
| 12 | Caniatadau Arbennig | • Pan fydd ceisiadau'n codi. | • Nid oes unrhyw geisiadau am ganiatadau arbennig wedi'u derbyn ar gyfer y cynfod hwn. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | Adroddiadau Blynyddol Aelodau | • Dylai'r Pwyllgor Safonau barhau i annog y weithred o gwblhau Adroddiadau Blynyddol a gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r mater hwn, gan gofio mai dewis bob Cynghorydd unigol yw cwblhau adroddiad blynyddol ai peidio. | • Mae'r adroddiadau a gyflwynwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau yn cynnwys manylion am Adroddiadau Blynyddol. |
| 14 | Cynghorau Tref a Chymuned | • Rhaid i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynychu Cyfarfodydd Fforwm rheolaidd i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorau Tref a Chymuned a Chylchlythyrau. | • Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod y Fforwm ar 19/09/2024.<br>• Gwnaed trefniadau i'r Cadeirydd fynychu cyfarfod y Fforwm ym mis Chwefror 2025; fodd bynnag, gan nad oed y Pwyllgor Safonau wedi cwrdd ym mis Rhagfyr 2024, cafodd hyn ei ail-drefnu, a'r bwriad yw y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfod y Fforwm ym mis Mai. |
| 15 | Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol | • Dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfodydd y Fforwm a chynnig adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau. | • Mynychodd Trefor Owen (yn ei gapasiti fel Is-gadeirydd ar y pryd) gyfarfod o'r Fforwm ar 24/06/2024. Rhannwyd nodiadau gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau, a chawsant eu trafod yn ddiweddarach ym mis Mehefin 2024.<br>• Mynychodd Trefor Owen (yn ei gapasiti fel Cadeirydd) gyfarfod o'r Fforwm ar 27/01/2025. Rhannwyd nodiadau gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2025.<br>• Trefnwyd hyfforddiant gwrandawiadau i Aelodau'r Fforwm (h.y. Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) ar 23/04/2024. Nid oedd Rhys Davies (yn ei gapasiti fel Cadeirydd ar y pryd) yn gallu mynychu, ond derbyniodd recordiad o'r hyfforddiant. |
| 16 | OGCC a PDC yn adrodd ar achosion Darparu dolenni ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. | • Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at yr achosion a gyhoeddwyd gan y OGCC a PDC. | • Wedi'i gynnwys yn yr agenda ar gyfer cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2024 a Chwefror 2025.<br>• Materion yn y Newyddlenni/gohebiaeth wedi'u rhannu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau CSYM. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad LlC ar faterion moesegol | • Mae'r adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi. Ymgynghoriad LlC wedi dod i ben 23.06.2023.<br>• Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan LlC ym mis Tachwedd 2023.<br>• Angen gwaith pellach pan mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. Dim amserlen gyhoeddus ar hyn o bryd. | • Dim manylion pellach wedi'u derbyn. |
| 18 | Trafodaethau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Aelodau ac yn adrodd ar unrhyw allbynnau sydd angen eu cyfeirio i'r Swyddog Monitro.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro. | • Penodwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd ym mis Chwefror 2024. Ymddiswyddodd y Cadeirydd o'r rôl ym mis Awst 2024. Penodwyd yr Is-gadeirydd fel Cadeirydd ym mis Medi 2024. Cafodd Is-Gadeirydd ei benodi yn Chwefror 2025.<br>• O ganlyniad i hyn, a chapasiti swyddogion (oherwydd swydd wag ers Haf 2024) nid yw'r mater hwn wedi gwneud cynnydd oherwydd yr angen i flaenoriaethu materion eraill ar y rhaglen waith. Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith 2025-2026. |
| 19 | Goruchwylio'r Cyngor a chyfarfodydd ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | • Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn goruchwylio cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau os bydd angen, a bydd hefyd yn darparu adborth i'r Cadeirydd perthnasol.<br>• Yn dilyn ymlaen o waith yn ystod 2023/2024, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i oruchwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Y bwriad gwreiddiol yw bod dau aelod annibynnol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor am 6 mis (gan ddechrau ym mis Mawrth 2024), gyda'r bwriad o gynnal adolygiad ar ôl 3 mis (Mai); efallai bydd yr ymarferiad goruchwylio yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl neu'n cael ei ymestyn, fel y gwelir yn briodol. Bydd canfyddiadau cyffredinol yn cael eu bwydo yn ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar ddiwedd yr ymarferiad; bydd | • Dechreuodd y Pwyllgor Safonau oruchwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ym mis Mawrth 2024, fel rhan o waith ataliol y Pwyllgor yn dilyn atgyfeiriad gan y Swyddog Monitro. Roedd hyn yn dilyn cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau (ar y pryd), a Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Bwriad y Pwyllgor Safonau oedd goruchwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion am gyfnod o 6 mis, gan gynnal adolygiad ar ôl 3 mis.<br>• Mynychodd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn eu tro ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2024. Yn dilyn hyn, adolygodd yr aelodau annibynnol y mater mewn cyfarfod anffurfiol ar 13/05/2024 |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | unrhyw bryderon brys yn cael eu hadrodd yn gynt. | a phenderfynu peidio â pharhau gyda'r gwaith goruchwylio/adolygu ymhellach.<br>• Ni gwblhawyd unrhyw oruchwyliaeth pellach yn ystod y flwyddyn. |
| 20 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo annog llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | • Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain y gwaith hwn. | • Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno ei ddiweddariad mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Aelodau mewn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau. |
| 21 | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch - cynyddu gwerth y gofrestr i £25. | • Yn dilyn trafodaeth ar lefel genedlaethol yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru i safoni'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch ym mhob un o'r awdurdodau yng Nghymru, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor y byddai'r trothwy arfaethedig o £25 yn cael ei weithredu yn yr awdurdod hwn, yn hytrach na'r cyfyngiad £20 presennol. Fodd bynnag, mae angen newid Cyfansoddiad y Cyngor cyn y gellir rhoi'r trothwy newydd ar waith. Gwnaed argymhelliad y dylid cynnwys yr argymhelliad hwn wrth gyflwyno'r adroddiad priodol nesaf i'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor llawn. Nid oes cyfle o'r fath wedi codi hyd yma. Dyma yw bwriad y Pwyllgor. | • Nid oes cyfle wedi bod i weithredu ar y mater hwn.<br>• Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith 2025-2026. |
| 22 | Camau'n codi o'r adolygiadau ar gofrestr diddordebau Aelodau etholedig gan Aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau. | • Cwblhawyd yr adolygiadau ym mis Ionawr 2024. Trafodwyd y canfyddiadau mewn cyfarfod anffurfiol ar 01/02/2024. Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod canfyddiadau'r adolygiad hwnnw yn cael eu dosbarthu ymhlith (a) Cynghorwyr unigol, (b) arweinyddion grŵp, (c) swyddogion a (d) yr holl aelodau. | • Cynhaliwyd adolygiad o sampl cofrestr diddordebau Cynghorwyr Sir ym mis Ionawr 2024 (fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024), a thrafodwyd y canfyddiadau mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2024.<br>• Cafodd y gwaith o weithredu ar y canfyddiadau o ganlyniad i'r adolygiadau ei gynnwys fel cam gweithredu ar Raglen Waith 2024/2025.<br>• Adroddwyd ar y broses yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2024 a Chwefror 2025.<br>• Anfonwyd gohebiaeth at Gynghorwyr unigol lle roedd yr |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | adolygydd o'r farn bod yr Aelod angen adolygiad / diweddariad / eglurhad am unrhyw wybodaeth.<br>• Lle roedd pryderon ynghylch llesiant e.e. oherwydd cofnodion presenoldeb, anfonwyd gohebiaeth at yr Arweinydd Grŵp perthnasol.<br>• Nodwyd materion corfforaethol e.e. materion technegol gan aelodau annibynnol tra'n cwblhau adolygiadau, ac anfonwyd gohebiaeth at y Prif Weithredwr er mwyn codi'r pryderon hyn.<br>• Paratowyd adroddiad canfyddiadau cyffredinol, a chafodd ei rannu gyda'r Arweinyddion Grŵp, ac yna'r holl Aelodau ym mis Gorffennaf 2024. |
| 23 | Mynediad at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar y Cyngor Sir | • Cafodd y mater ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 ond, oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill, ni weithredwyd arno.<br>• Mae'r wefan yn cael ei datblygu'n helaeth, a byddai'n amserol cymryd camau er mwyn sicrhau bod mynediad rhwydd ar gael at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. | • Mae gwybodaeth am y Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys ar wefan y Cyngor ac mae manylion cyfarfodydd Aelodau yn gyfredol. Fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwaith, nid oes gwaith pellach wedi'i wneud i ychwanegu'r wybodaeth honno sydd eisoes ar gael.<br>• Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Waith 2025-2026. |
| 24 | Ymateb i geisiadau a wnaed mewn perthynas ag archwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir / Cynghorwyr Cymuned. | • Mae OGCC yn archwilio cwynion mewn perthynas ag 2 Cynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Cymunedol ar hyn o bryd.<br>• Cymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â'r materion hyn ac unrhyw faterion eraill all godi yn ystod y flwyddyn. | • Mae OGCC yn archwilio cwynion mewn perthynas ag 1 Cynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Cymunedol ar hyn o bryd.<br>• Anfonodd OGCC ei adroddiad ar archwiliad i gŵyn mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn erbyn Cynghorydd Sir (dan adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000) at y Swyddog Monitro ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r adroddiad yn nodi y dylid cyfeirio'r mater i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau Benderfyniad dechreuol ar 26/02/2025, yn unol â'i Weithdrefn Gwrandawiadau. Yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylai'r gŵyn fod yn destun gwrandawiad lleol |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyda’r Pwyllgor. Cynhelir y gwrandawiad y tu allan i gwmpas yr adroddiad blynyddol hwn, ac felly mae ymdrin â’r mater hwn yn rhywbeth yr adroddir arno yn rhaglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026. |
| 25 | Materion yn deillio o drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor llawn. | • Canlyniad cyfarfodydd:<br>Materion i’w gweithredu:<br>  • Gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2023/2024 i’w hanfon at Arweinyddion Grŵp.<br>  • Addasu ffurflen adborth i Arweinyddion Grŵp a bod y Pwyllgor Safonau’n annog Arweinyddion Grŵp i gynnwys mwy o dystiolaeth ym mocsys 1-3 (addasu fformat, cadarnhau na fydd y ffurflen yn cael ei chyhoeddi) - sicrhau cysondeb gyda gwybodaeth am hyfforddiant sy’n cael ei derbyn yn chwarterol gan Arweinyddion Grŵp.<br>  • Anogir Arweinyddion Grŵp i gwblhau adolygiadau datblygiad personol ffurfiol yn flynyddol gydag Aelodau’r Grŵp.<br>  • Trefnu’r holl gyfarfodydd rhwng Arweinyddion Grŵp a’r Pwyllgor Safonau ar yr un diwrnod, er mwyn hwyluso trefniadau a chadw chostau’n isel.<br><br>Gofynnir i Arweinyddion Grŵp fynychu eu cyfarfod gyda’r Pwyllgor Safonau ar eu pen eu hunain er mwyn creu awyrgylch agored lle all y Pwyllgor ac Aelodau drafod rhwymedigaeth statudol yr Arweinyddion Grŵp yn agored. | • Anfonwyd gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2023/2024 at Arweinyddion Grŵp 23 Awst 2024.<br>• Trafodwyd ffurflen adborth yr Arweinyddion Grŵp ar gyfer y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod anffurfiol o’r Pwyllgor Safonau ym mis Hydref 2024, a gwnaed addasiadau. Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor Safonau y ffurflen adrodd ddiwygiedig i’r Arweinyddion Grwpiau mewn cyfarfod ar 30/ Ionawr 2025. Cafodd Arweinyddion Grŵp gyfle i godi unrhyw bryderon ar lafar yn y cyfarfod neu drwy ohebiaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth. Anfonwyd y fersiwn derfynol at Arweinyddion Grŵp ym mis Mawrth 2025 gyda chais iddynt gwblhau’r ffurflen erbyn 30 Ebrill 2025, fel y gellir trefnu cyfarfodydd ym mis Mai 2025.<br><br>MAE MWY O FANYLION I’W CYNNWYS YMA MAES O LAW |
| 26 | Cyngor Cymuned B | • Yn dilyn ymlaen o waith yn 2024/25, mae bwriad i gytuno ar ddyddiad adolygu gyda’r Cyngor Cymuned hwn, os oes angen hynny. | • Anfonwyd gohebiaeth at Gadeirydd y Cyngor Cymuned hwn ar 21/06/2024, yn nodi’r digwyddiadau ers Chwefror 2023, ac yn gofyn i’r Cyngor gadarnhau y byddai’r |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Adolygiad yn cael ei gynnal erbyn diwedd Gorffennaf 2024 neu nad oedd yn dymuno i'r Pwyllgor Safonau gynnal Adolygiad o'r fath.<br>• Dywedodd Clerc y Cyngor, mewn gohebiaeth ar 1 Awst, na fyddai Adolygiad o'r fath yn bosibl dan Ionawr 2025. Gofynnwyd am gadarnhad ysgrifenedig am gais y Clerc dros y ffôn, ond ni dderbyniwyd unrhyw gadarnhad. Ar y sail bod yr adolygiad wedi'i gynnig i'r Cyngor hwn ers Gwanwyn 2023, heb unrhyw gytundeb ar ddyddiad, a gan fod Adolygiad yn broses wirfoddol ac na wnaed cais ffurfiol am Adolygiad, penderfynodd y Pwyllgor Safonau nad oedd y Cyngor Cymuned eisiau adolygiad gan y Pwyllgor Safonau, ac na fyddai cyswllt pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â'r cynnig am Adolygiad. |

DRAFT

## ATODIAD 3

## Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026

| Rhif | Eitemau | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor Llawn | • Fod y Pwyllgor yn dechrau ystyried a gweithio ar yr Adroddiad Blynyddol cyn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2026.<br>• Fod y Pwyllgor yn datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2025/2026 (a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2026/2027) ar ddiwedd tymor 2025/2026.<br>• Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â'u cyfrifoldebau adrodd dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r broses i'w dilyn rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau. |
| 2 | Gweithredu'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned | • Pan fo'n ofynnol / yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. |
| 3 | Cynnig a darparu hyfforddiant sydd ar gael i arweinwyr pleidiau gwleidyddol<br>Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau<br>• Cynnwys Uwch Swyddogion? | • Rhaid gwneud y trefniadau hyn ar ddechrau bob gweinyddiaeth a rhaid cynnal hyfforddiant cyn pen 6 mis o'r etholiad, a rhaid ei adolygu'n flynyddol.<br>• • Bydd y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grŵp i gwblhau hyfforddiant a ddatblygir dan sgôp Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol a/neu drwy'r CLlLG.<br>• Yn lleol, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio gyda'r adran Hyfforddiant (AD) i drefnu Hyfforddiant 1-1 ar gyfer Arweinyddion Grŵp er mwyn eu cefnogi gyda'u rolau fel arweinwyr statudol ar faterion sy'n cael eu hystyried yn berthnasol ar gyfer Arweinyddion Grŵp lleol. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd arweinyddion grŵp dros ymddygiad eu haelodau | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd i adrodd mewn cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau yn dilyn bob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau.<br>• Adrodd / cyfathrebu pellach i'w wneud ar gais.<br>• Unrhyw waith sydd ei angen fel rhan o ddyletswydd y Pwyllgor Safonau i asesu a ddylid rhyddhau arweinyddion grŵp o'u dyletswyddau statudol. |
| 5 | Cyfathrebu gydag aelodau CSYM / Cynghorau Tref a Chymuned | • Yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. Cytuno sut i gyfathrebu negeseuon allweddol orau. |
| 6 | Cyfarfodydd | • Cyfarch y gofyn statudol o gynnal un cyfarfod ffurfiol yn flynyddol. Mae wedi bod yn arferol cynnal 2 gyfarfod ffurfiol.<br>• Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol. |
| 7 | Adrodd am gwynion - Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | • Bydd adroddiadau'n cael eu cynnwys yn Agenda ffurfiol y Pwyllgor.<br>• Mae adroddiad y Pwyllgor Safonau'n trafod unrhyw dueddiadau penodol o ran ymddygiad gwael. Angen parhau i adolygu hyn a sicrhau bod y broses yn gwarchod |

DRAFT

# ATODIAD 3

| | | |
|---|---|---|
| | | a pharchu (unrhyw rai o) ofynion cyfrinachedd yr OGCC mewn perthynas â'r materion hyn. |
| 8 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Annog holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol.<br>• Trefnu unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant AD. |
| 9 | Hyfforddiant Cadeirio - Herio Ymddygiad | • Cadeirydd / Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant sy'n cael ei drefnu drwy'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddelio gydag ymddygiad heriol gan aelodau a/neu'r cyhoedd. |
| 10 | Sut i wneud cwyn | • Ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i gwynion yn erbyn Aelodau unwaith y cytunir beth fydd y broses ar gyfer 'cwynion lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn. |
| 11 | Caniatadau Arbennig | • Pan fydd ceisiadau'n codi. |
| 12 | Adroddiadau Blynyddol Aelodau | • Bydd y Pwyllgor Safonau yn parhau i annog y weithred o gwblhau Adroddiadau Blynyddol a gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r mater hwn, gan gofio mai dewis bob Cynghorydd unigol yw cwblhau adroddiad blynyddol ai peidio. |
| 13 | Cynghorau Tref a Chymuned | • Bydd Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd yn mynychu Cyfarfodydd Fforwm rheolaidd i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorau Tref a Chymuned. |
| 14 | Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol | • Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm a chynnig adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau. |
| 15 | OGCC a PDC yn adrodd ar achosion Darparu dolenni ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. | • Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at yr achosion a gyhoeddwyd gan yr OGCC a PDC. |
| 16 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad LlC ar faterion moesegol | • Mae'r adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi. Ymgynghoriad LlC wedi dod i ben 23.06.2023.<br>• Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan LlC ym mis Tachwedd 2023.<br>• Angen gwaith pellach pan mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. Dim amserlen gyhoeddus ar hyn o bryd. |
| 17 | Trafodaethau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Aelodau ac yn adrodd ar unrhyw allbynnau sydd angen eu cyfeirio i'r Swyddog Monitro.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro. |
| 18 | Goruchwylio'r Cyngor a chyfarfodydd ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | • Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn goruchwylio cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau os bydd angen, a bydd hefyd yn darparu adborth i'r Cadeirydd perthnasol. |
| 19 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo annog llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | • Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain ar y gwaith hwn. |

DRAFT

## ATODIAD 3

| | | |
|---|---|---|
| 20 | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch - cynyddu gwerth y gofrestr i £25. | • Yn dilyn trafodaeth ar lefel genedlaethol yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru i safoni'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch ym mhob un o'r awdurdodau yng Nghymru, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor ym mis Medi 2023, y byddai'r trothwy arfaethedig o £25 yn cael ei weithredu yn yr awdurdod hwn, yn hytrach na'r cyfyngiad £20 presennol. Fodd bynnag, mae angen newid Cyfansoddiad y Cyngor cyn y gellir rhoi'r trothwy newydd ar waith. Gwnaed argymhelliad y dylid cynnwys yr argymhelliad hwn wrth gyflwyno'r adroddiad priodol nesaf i'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor llawn. Nid oes cyfle o'r fath wedi codi hyd yma. Dyma yw bwriad y Pwyllgor. |
| 21 | Mynediad at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar y Cyngor Sir | • Cafodd y mater ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 a 2024/2025 ond, oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill, ni weithredwyd arno.<br>• Mae'r wefan yn cael ei datblygu'n helaeth, a byddai'n amserol cymryd camau er mwyn sicrhau bod mynediad rhwydd ar gael at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. |
| 23 | Ymateb i geisiadau a wnaed mewn perthynas ag archwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir / Cynghorwyr Cymuned. | • Mae 1 achos wedi'i gyfeirio gan OGCC i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Bydd y Gwrandawiad yn cael ei drefnu yn ystod cyfnod adrodd 2025/2026.<br>• Mae OGCC yn archwilio cwynion mewn perthynas ag 1 Cynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Cymunedol ar hyn o bryd.<br>• Cymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â'r materion hyn ac unrhyw faterion eraill all godi yn ystod y flwyddyn. |
| 24 | Materion yn deillio o drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor llawn. | • Canlyniad cyfarfodydd:<br>Materion i'w gweithredu:<br>◦ Gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2024/2025 i'w hanfon at Arweinyddion Grwpiau (os oes angen).<br>[NODI MANYLION PELLACH YMA YN DILYN CYFARFODYDD GYDA'R ARWEINYDDION GRWPIAU] |
| 25 | Protocol Datrysiad Lleol | • Gweithredu newidiadau i'r Protocol Datrysiad Lleol yn dilyn adolygiad yn Chwefror 2025, sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a rannwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |

DRAFT

# Newyddlen y Pwyllgor Safonau: Cynghorau Tref a Chymuned

**Haf 2024 - Rhifyn 7**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae'r **Pwyllgor Safonau** (PS) yma i gynorthwyo Cynghorwyr i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad sydd wedi cael ei fabwysiadu gan eich Cyngor Tref neu Gymuned (CTC). Fel y gwyddoch, mae cynnal ymddygiad moesegol o safon uchel yn rhan hanfodol o'ch rôl yn cynrychioli'r cyhoedd.

## Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r PS yn falch o allu cynnig pedwar sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Clercod a Chynghorwyr CTC yn ystod tymor yr Hydref 2024. Mae cynnig yr hyfforddiant hwn yn cael ei ystyried yn amserol (hanner ffordd drwy'r tymor ers yr etholiadau lleol diwethaf, pan gynigwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf) ac oherwydd bod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion mewn CTCau lleol yn ystod Chwarter 4 2023/2024. Mae'r PS yn awyddus i annog Clercod a Chynghorwyr i fynychu'r sesiynau hyn er mwyn sicrhau eich bod yn gwella'ch dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad.

Mae'r sesiynau a gynigir fel a ganlyn:

**Dydd Llun, 14/10/2024** am **2:00yp (Cymraeg)**

**Dydd Mercher 23/10/2024** am **2:00yp (Saesneg)**

**Dydd Iau 07/11/2024** am **6:30yh (Cymraeg)**

**Dydd Mawrth 19/11/2024** am **6:30yh (Saesneg)**

Bydd y sesiynau yn para awr a hanner. Fe'i cynhelir yn rhithiol.

Yn ôl Canllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru, mae methiant i fynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei ystyried yn ffactor gwaethygol wrth bennu cosb am dorri'r Cod. Nid yw mynychu hyfforddiant yn ffordd o sicrhau na fydd cwynion yn cael eu gwneud yn erbyn Cynghorwyr ond mae'n ffordd o addysgu Clercod a Chynghorwyr er mwyn sicrhau eich bod yn deall y Cod a'i oblygiadau.

Mae gohebiaeth eisoes wedi cael ei hanfon at Glercod y CTCau a gofynnir i chi gysylltu â'r Adain Gyfreithiol i gael lle ar y cwrs yma. Mae lleoedd yn gyfyngedig a gweithredir ar sail y cyntaf i'r felin. Cysylltwch â **Cyfraith@ynysmon.llyw.cymru** **erbyn 27/09/2024** i wneud yn siŵr eich bod yn cael lle, gan nodi pa sesiwn yr hoffech ei mynychu. **Nid oes cost ar gyfer y sesiynau hyn.**

**Dros y dudalen..**

DRAFFT

**Caniatâd arbennig**
Mae'n bosib i Gynghorwyr dderbyn caniatâd arbennig gan y PS i gymryd rhan mewn penderfyniadau hyd yn oed os oes gan yr Aelod hwnnw ddiddordeb sy'n rhagfarnu o dan y Cod Ymddygiad. Mae Clercod y CTCau wedi derbyn canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig a byddai'r Swyddog Monitro yn hapus i ddarparu copi pellach ar gais.

Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais y dymunwch ei wneud.

**Gwefannau Cymdeithasol**
Yn ystod ei gyfarfodydd ffurfiol derbyniodd y PS adroddiadau ar yr achosion Cymru gyfan a ystyriwyd gan **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (OGCC) a **Phanel Dyfarnu Cymru** (PDC). Mae gan y Cyngor Sir brotocol cyfryngau cymdeithasol, mae copi ar gael **yma**. O ystyried yr achosion a ystyriwyd gan PDC/OGCC yn ddiweddar, os nad oes gan eich CTC brotocol cyffelyb, efallai y dylech ystyried mabwysiadu protocol o'r fath gan y gallai materion yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol arwain at honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

**Cwynion diweddar**
Mae'r PS yn poeni bod 5 cwyn wedi cael ei anfon at sylw OGCC ynglŷn ag Aelodau un Cyngor Cymuned yn lleol mewn cyfnod byr o amser ar ddechrau 2024 (yn ystod Chwarter 4 2023/2024). Mae'r ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo yn gysylltiedig ag un achos.
Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â Chwarter 1, 2 a 3 pan na chafodd unrhyw gwynion eu hanfon at sylw'r Ombwdsman ynglŷn â Chynghorwyr CTCau Ynys Môn.

Mae OGCC yn annog CTCau i fabwysiadu protocol datrysiad lleol sy'n seiliedig ar brotocol enghreifftiol Un Llais Cymru. Mae'r protocol hwnnw ar gael **yma**.

Ar gyfer materion lle nad ydy'r Protocol yn addas bydd rhaid i chi ystyried anfon cwyn at sylw OGCC.

**Ac yn olaf...**
Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol diwethaf y PS ar 18/06/2024. Os ydych yn dymuno edrych ar yr eitemau/adroddiadau a ystyriwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen **hon**.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am y math o bynciau yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y newyddlen nesaf, gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ar **Cyfraith@ynysmon.llyw.cymru**

DRAFT

# Newyddlen y Pwyllgor Safonau: Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

**Haf 2024 - Rhifyn 7**

Mae'r **Pwyllgor Safonau** (PS) yma i'ch cefnogi i gydymffurfio â'r **Cod Ymddygiad** i aelodau. Fel y gwyddoch, mae cynnal lefel uchel o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl yn cynrychioli'r cyhoedd.

**Hyfforddiant Mandadol ar gyfer Aelodau Etholedig**

Noda'r PS fod lefelau presenoldeb Aelodau Etholedig yn ystod hyfforddiant mandadol yn parhau'n is na'r hyn sy'n ddymunol. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i annog pob Cynghorydd i fynychu hyfforddiant mandadol er mwyn sicrhau fod gennych yr wybodaeth allweddol i'ch galluogi i gyflawni'ch rôl yn llawn. Teimla'r Pwyllgor fod hyfforddiant yn fodd o addysgu Cynghorwyr ac ychwanegu gwerth i'r Cyngor cyfan.

Mae Arweinyddion Grwpiau yn derbyn adroddiad chwarterol ar bresenoldeb aelodau o'u grŵp yn ystod sesiynau hyfforddi a gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau annog Aelodau sydd heb gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol i wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Yn yr un modd, gofynnir i'r unigolion sydd heb gwblhau'r hyfforddiant mandadol i gysylltu â'r Adain Hyfforddiant (Adnoddau Dynol) er mwyn gwirio'r trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.

**Protocol Cyfryngau Cymdeithasol**

Yn ystod ei gyfarfodydd ffurfiol mae'r PS yn derbyn adroddiad ar achosion o bob cwr o Gymru a ystyriwyd gan **Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (OGCC) a **Phanel Dyfarnu Cymru** (PDC). O ystyried rhai o'r achosion diweddaraf, mae'r PS yn awyddus i atgoffa Aelodau ynglŷn â'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol sydd ar gael ym mharagraff 5.10 yng **Nghyfansoddiad y Cyngor.**

Fe'ch anogir fel Aelodau i ystyried y Protocol hwn wrth i chi ddefnyddio gwefannau cymdeithasol.

**Adolygiadau Cofrestrau Diddordebau Aelodau Etholedig**

Yn ddiweddar cynhaliodd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau adolygiad o Gofrestrau Diddordebau sampl o Aelodau Etholedig y Cyngor Sir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, a'r gofynion Cofrestru yn benodol. Penderfynodd y Pwyllgor gymryd y camau gweithredu a ganlyn ar sail eu canfyddiadau:

- Mae rhai o'r Aelodau a oedd yn rhan o'r adolygiad wedi derbyn gohebiaeth bersonol gydag argymhellion i adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth yn eu Cofrestrau.
- Pan godwyd pryder am les aelodau, er enghraifft oherwydd newid yn eu patrwm presenoldeb, anfonwyd gohebiaeth at Arweinydd Grŵp yr aelod.
- Codwyd nifer o faterion corfforaethol neu dechnegol ac mae'r rhain wedi cael eu codi â'r Prif Weithredwr.

**Dros y dudalen...**

- Mae adroddiad cyffredinol er mwyn cynnig adborth ar y pynciau/themâu cyffredinol a godwyd wedi cael ei rannu â'r Arweinyddion Grwpiau yn y lle cyntaf ac yna drwy e-bost â'r holl Aelodau. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad yma'n fodd i aelodau ddysgu wrth iddynt ystyried y materion y mae'r PS yn eu hystyried yn arferion da/gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Fe'ch anogir i ystyried cynnwys yr adroddiad a gweithredu fel bo'r angen.

Diolch am eich cydweithrediad a gobeithiwn eich bod yn teimlo bod gwerth i'r adolygiadau achlysurol hyn.

**Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Gynghorau Tref a Chymuned**

Fel rhan o'i ddyletswydd i sicrhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac yn dilyn cynnydd yn y nifer o gwynion ynglŷn â Chynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod Chwarter 4 2023/2024, mae'r PS wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Glercod ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yr ynys yn ystod tymor yr Hydref 2024. Bydd y sesiynau hyn yn para am awr a hanner. Fe'i cynhelir fel sesiynau rhithiol. Mae pedwar sesiwn wedi cael ei threfnu fel a ganlyn -

**Dydd Llun, 14/10/2024** am **2:00yp (Cymraeg)**
**Dydd Mercher, 23/10/2024** am **2:00yp (Saesneg)**
**Dydd Iau, 07/11/2024** am **6:30yh (Cymraeg)**
**Dydd Mawrth, 19/11/2024** am **6:30yh (Saesneg)**

Mae'r PS eisoes wedi ysgrifennu at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i'w hysbysu ynglŷn â'r trefniadau hyn.

Yn rhinwedd eich rôl fel Cynghorwyr Sir, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn tynnu sylw'r Cynghorau Tref a Chymuned yr ydych chi'n eu mynychu at yr wybodaeth yma ac annog y Clercod a Chynghorwyr i ymuno yn un o'r sesiynau hyn er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

Dylech gysylltu gyda **cyfraith@ynysmon.llyw.cymru** cyn gynted â bo modd os ydych am archebu lle ar un o'r sesiynau hyn. Dyrennir lleoedd ar sail y cyntaf i'r felin.

**Ac yn olaf...**

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol diwethaf y PS ar 18/06/2024. Os ydych yn dymuno edrych ar yr eitemau/adroddiadau â ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw, dilynwch y ddolen **hon.**

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am y math o bynciau yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y newyddlen nesaf, gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ar **Cyfraith@ynysmon.llyw.cymru**

DRAFT

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a dyletswydd newydd yr Arweinyddion Grwpiau

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, erbyn hyn mae gan Arweinyddion Grwpiau ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol (a) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a (b) gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2. Mae'n bosib y gallai arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon gael eu hystyried i fod yn dwyn anfri ar ei swydd, a'i bod yn debygol eu bod yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. Hefyd, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (1 Ebrill- 31 Mawrth). Rhaid i'r adroddiad gael ei ystyried gan y cyngor perthnasol o fewn tri mis i'w dderbyn.

4. Rhaid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad y Pwyllgor o sut y mae Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd (paragraff 1 uchod). Bydd rhaid i'r Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i wneud hyn.

5. Ar ôl ystyried gofynion Deddf 2021, lluniwyd adroddiad templed drafft i gynorthwyo'r Arweinyddion Grwpiau ac i'w hatgoffa o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Safonau.

6. Ni fydd eich ffurflen yn cael ei chyhoeddi. Fe'i rhennir gydag aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau a'r swyddogion cefnogol yn unig.

7. Nid yw'r templed yn gofyn am, ac ni ddylid cynnwys, manylion achosion unigol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y math o gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

8. Gofynnir i Arweinyddion Grwpiau gynhyrchu'r adroddiadau hyn unwaith y flwyddyn; fodd bynnag, os bydd materion o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

9. Ar ôl eu cwblhau dylai'r Arweinyddion Grwpiau anfon y ffurflenni at y Swyddog Monitro erbyn **30 Ebrill**. Bydd y Swyddog Monitro'n adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

10. Bydd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau'n trefnu i gwrdd â phob Arweinydd Grŵp ar ben eu hunain yn breifat **yn ystod mis Mai** i drafod yr adroddiad. Anelir cynnal y cyfarfodydd hyn ar yr un diwrnod.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys gwybodaeth addas o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau o fewn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd, barn y Pwyllgor ynghylch a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol ac unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni yn y dyfodol ayb.

12. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trafod ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ffurfiol ym Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar ei ganfyddiadau o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau a bydd hefyd yn adnabod, o fewn y fforwm cyhoeddus yma, unrhyw Arweinydd Grŵp sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad.

13. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod llawn nesaf sydd ar gael yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

14. Os yn berthnasol, bydd rhaid briffio aelodau di-gysylltiad (sydd ddim yn perthyn i grŵp) yn yr un modd â'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal gan bob aelod, er na fydd disgwyl iddynt gynhyrchu adroddiad yn y modd hwn.

**Adroddiad gan Arweinydd Grŵp (AG) i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'i ddyletswydd fel AG:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad gan:** | (enw'r AG) | **Grŵp Gwleidyddol:** | (enw'r Grŵp) |
| **Y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o ('y Cyfnod'):** | 1 Ebrill 20___ hyd nes 30 Mawrth 20___ | **Nifer o aelodau yn y grŵp:** | |

**Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**
*Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y math o faterion mae'r Pwyllgor Safonau yn disgwyl i Arweinyddion Grwpiau roddi sylw iddynt a'r trothwy a ddefnyddir gan y Pwyllgor wrth ystyried â ydych chi wedi gweithredu eich dyletswydd fel Arweinydd y Grŵp. Dylech ystyried y materion hyn a'r 10 egwyddor ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a nodir yn **Atodiad 3** wrth baratoi eich ymateb, os gwelwch yn dda.*

➔ **Ymrwymiad personol**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

| |
|---|
| |

➔ **Annog aelodau**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

| |
|---|
| |

➔ **Cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion Grwpiau eraill**

Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 2** am fwy o wybodaeth.

| |
|---|
| |

**Mae croeso i chi atodi unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd gennych o'r camau rydych wedi eu cymryd o safbwynt y materion uchod i'r ffurflen. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ofynnol. Ond gofynnir i chi baratoi cyn eich cyfarfod gyda'r Pwyllgor Safonau a bod yn barod i rannu gwybodaeth ac enghreifftiau yn ystod y sgyrsiau hyn.**



DRAFFT

**Hyfforddiant Modiwlau Mandadol yn ystod y Cyfnod:**

Gweler y rhestr o Hyfforddiant Mandadol sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 4.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nifer o fodiwlau hyfforddiant mandadol sydd angen eu cwblhau gan holl aelodau'r Grŵp:** | | **Nifer o fodiwlau sydd wedi eu cwblhau:** | |
| **Nifer o aelodau o fewn y grŵp sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau mandadol gofynnol:** | | | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn benodol:** | | | |

**Cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer o gyfarfodydd Grŵp sydd wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau'r Grŵp:** | |

**Adolygiad datblygiad blynyddol rhwng aelodau a'r Arweinydd Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig uchod gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |

**Adroddiadau Blynyddol, sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor fel arfer dda, ar gyfer y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cyflwyno adroddiad blynyddol:** | |

**Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi adolygu eu Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:** | |

**Cwynion:**

| **Cwyn gan:** | **Y camau a gyrhaeddwyd:** | | |
|---|---|---|---|
| (nodwch y niferoedd) | **Anffurfiol** | **Protocol Datrysiad Lleol** | **OGGC** |
| aelod o'r cyhoedd | | | |
| swyddog | | | |
| aelod o'r un grŵp gwleidyddol | | | |
| aelod o wahanol grŵp gwleidyddol / ddim mewn grŵp gwleidyddol | | | |

**Cyfarfodydd cefnogi:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig cyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig am gyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |

**Ystyriaeth o eleni o gymharu gyda'r llynedd:**

| |
|---|
| Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi.<br>Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried eu bod wedi **gwella** eleni? |
| |

| |
|---|
| Mae copi o'r ffurflen a dderbyniwyd gennych y llynedd wedi ei atodi.<br>Eglurwch isod, os gwelwch yn dda, pa faterion rydych yn ystyried sydd **angen sylw** ar gyfer y flwyddyn nesaf gennych? |
| |

***Anfonwch eich adroddiad, os gwelwch yn dda, at y Swyddog Monitro drwy ebostio LynnBall@ynysmon.llyw.cymru***

***Arwyddwyd gan yr AG:*** ________________________________________ ***Dyddiad:*** __________________

DRAFT



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

**Camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Grŵp i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

Dylid cwblhau'r rhan yma o'r adroddiad yn eich geiriau eich hun.

**Nid oes angen cynnwys yr holl wybodaeth a sonir amdano isod**. Mae'r materion sy'n dilyn wedi eu cynnwys fel esiamplau o'r math o wybodaeth y gellid ystyried ei gynnwys fel rhan o'ch ymateb ac yn seiliedig ar y Canllaw Statudol sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymrwymiad personol:

- Wedi dangos ymrwymiad personol i ddatblygu drwy fynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- Wedi gosod esiampl drwy ddangos egwyddorion ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus yn cynnwys moesgarwch a pharch yn benodol;
- Wedi defnyddio eich dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;
- Wedi hybu diwylliant sy'n cefnogi safonau ymddygiad uchel ac uniondeb o fewn y grŵp;
- Wedi delio â phroblemau yn syth;
- Wedi hybu cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd o'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor;
- Wedi gweithio er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

Annog aelodau'r grŵp:

- wedi annog aelodau'r grŵp i ddatblygu a mynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad;
- wedi sicrhau bod y rhai a enwebir i bwyllgorau wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

Cydweithio gydag eraill:

- wedi hybu datrysiadau anffurfiol yn y cyngor, a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a swyddog monitro i ddatrys materion yn lleol;
- gweithio gyda'r pwyllgor safonau i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried, a mynd i'r afael â nhw e.e. drwy awgrymu neu ofyn am hyfforddiant briodol, gofyn am ddileu negeseuon amhriodol oddi ar wefannau cymdeithasol neu gofyn i ystyried ymddiheuro;
- wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor safonau'r cyngor ar gais i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Monitro a/neu Arweinyddion Grŵp eraill i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad yn ôl y galw;
- wedi gweithio gyda'r Arweinyddion Grwpiau eraill o fewn rheswm, i gefnogi cynnal safonau ymddygiad uchel ar y cyd o fewn y cyngor.

Materion eraill allai fod yn berthnasol:

- Rydych wedi adolygu Canllaw yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.
- Rydych wedi ystyried Newyddlenni y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn. Rydych wedi annog aelodau eich Grŵp i wneud yr un modd.

Gofynnir wrthych am atodi tystiolaeth berthnasol. Yn unol â'r Canllaw Statudol gan Lywodraeth Cymru, awgrymir bod tystiolaeth yn gallu cynnwys nodiadau cyfarfodydd, copiau o ohebiaeth, archwiliadau hyfforddiant aelodau ar faterion megis cydraddoldeb a'r Cod Ymddygiad, a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn yr hyfforddiant hwnnw.

DRAFT

**10 Egwyddor Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus statudol yng Nghymru**

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd I hybu'r gyfraith
- Gwarchod
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydradoldeb a pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arwain

DRAFFT


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

**Modiwlau Hyfforddiant Mandadol**

- **Cod Ymddygiad ***
- **Diogelwch Seibr ***
- **Diogelu #**
- **Diogelu Data #**
- **Cydraddoldeb #**
- **Iechyd a Diogelwch**

*** = yn ofynnol o fewn 6 mis i aelod gael eu hethol**
**# = yn ofynnol o fewn 12 mis i aelod gael eu hethol**

**Yn ogystal â:**

- **Sgiliau Technoleg Gwybodaeth – sy'n cynnwys deall y systemau a chyfarpar TG y Cyngor.**
- **Ar gyfer holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau:**
    - **Cadeirio Cyfarfodydd Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion**
      **Yn ofynnol ar ethol yn Gadeirydd / Is-Gadeirydd ac yna pob dwy flynedd os ail-etholir.**

- **Yr Hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelod o Bwyllgor penodol, yn cynnwys:**
    - **Pwyllgor Cynllunio**
    - **Pwyllgor Trwyddedu**
    - **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**
    - **Pwyllgor Apwyntio**

**Mae gofyn i Aelodau gwblhau ac ail-adrodd yr hyfforddiant mandadol gofynnol yn unol â'r manylion â gyhoeddir gan y Cyngor.**

DRAFT

**EITEM 11 AR Y RHAGLEN**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mehefin 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor am yr hyfforddiant Cod Ymddygiad a gynigiwyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Hydref 2024.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CEFNDIR

Mae dyletswyddau statudol y Pwyllgor Safonau'n cynnwys hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr, cynorthwyo Cynghorwyr i ddilyn eu Cod Ymddygiad a threfnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i Gynghorwyr Sir a hefyd aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Cynhaliwyd etholiadau i ethol Cynghorwyr ar gyfer holl Gynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn ar 5 Mai 2022. Trefnodd y Pwyllgor Safonau hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod Hydref 2022. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r ymarfer hyfforddi hwnnw ar 14/12/2022 – gweler dolen i'r adroddiad yma.

Fel rhan o'i Raglen Waith ar gyfer 2024-2025, cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau y byddai'n trefnu hyfforddiant pellach, trwy ddarparu hyfforddiant diweddaru ar y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr Tref a Chymuned ar ganol y tymor presennol.

## 2. COD YMDDYGIAD

Rhaid i bob Cyngor Tref a Chymuned fabwysiadu Cod Ymddygiad. Mae Cod Ymddygiad enghreifftiol ar gyfer pob awdurdod perthnasol yng Nghymru; cynnwys y Cod statudol hwnnw yw'r gofyn sylfaenol. Gall pob awdurdod perthnasol benderfynu os yw am gynnwys gofynion ychwanegol o fewn eu Cod, ond ni all Cyngor ddileu unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Cod statudol. Mewn gwirionedd, mae mwyafrif y Cynghorau'n mabwysiadu'r Cod Ymddygiad statudol fel y'i drafftiwyd.

Mae'n ofynnol i bob aelod o Gyngor lofnodi ymrwymiad wrth dderbyn swydd fel Cynghorydd sy'n cadarnhau eu hymrwymiad i ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eu Cyngor.

## 3. DIGWYDDIADAU HYFFORDDI

Trefnwyd hyfforddiant Cod Ymddygiad ar-lein yn Hydref 2024 trwy Un Llais Cymru, a chynigiwyd yr hyfforddiant gan y Pwyllgor Safonau i holl aelodau a chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y sesiynau'n agored i hyd at 20 o bobl ac yn para tua awr a hanner.

Anfonwyd gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Cynghorau Tref a Chymuned ar 15 Gorffennaf 2024 yn eu gwahodd i un o'r pedwar sesiwn posib:

| **Dyddiad** | **Diwrnod** | **Amser** | **Iaith y digwyddiad** |
|---|---|---|---|
| 14.10.2024 | Dydd Llun | 14.00 | Cymraeg |
| 23.10.2024 | Dydd Mercher | 14:00 | Saesneg |
| 07.11.2024 | Dydd Iau | 18:30 | Cymraeg |
| 19.11.2024 | Dydd Mawrth | 18.30 | Saesneg |

Gofynnwyd i'r clercod gysylltu â swyddog penodol o'r Cyngor Sir er mwyn cadarnhau enwau'r unigolion oedd yn dymuno mynychu'r hyfforddiant a'u dewis o sesiwn.

Anfonwyd gohebiaeth bellach at y Cynghorau Tref a Chymuned ddechrau mis Medi er mwyn eu hatgoffa.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau at y cynnig fel rhan o'i gyflwyniad yn y Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned ar 19 Medi.

Cyfeiriwyd at y cynnig o hyfforddiant Cod Ymddygiad a'r trefniadau uchod yn Newyddlen mis Medi'r Pwyllgor Safonau a anfonwyd at Glercod y Cynghorau ar 24 Medi.

Anfonwyd e-byst atgoffa wythnos cyn bob sesiwn.

## 4. Y RHAI A FYNYCHODD A'U CYNGHORAU TREF/CYMUNED

Dyma'r niferoedd a fynychodd un o'r pedwar sesiwn oedd yn cael eu cynnig:

| **Dyddiad** | **Amser** | **Iaith y digwyddiad** | **Nifer o unigolion oedd wedi cofrestru eu diddordeb mewn mynychu'r hyfforddiant** | **Nifer o unigolion a fynychodd sesiwn hyfforddi** |
|---|---|---|---|---|
| 14.10.2024 | 14:00 | Cymraeg | 12 | 08 |
| 23.10.2024 | 14:00 | Saesneg | 17 | 16 |
| 07.11.2024 | 18:30 | Cymraeg | 17 | 09 |
| 19.11.2024 | 18:30 | Saesneg | 20 | 15 |
| | | | 66 | 48 |

Mae'r tabl sydd wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1** yn manylu ar y nifer a fynychodd o bob Cyngor Tref a Chymuned.

O’r 80 lle oedd ar gael yn yr hyfforddiant, roedd 66 o bobl wedi cofrestru a mynychodd 48 yr hyfforddiant. Ni wnaeth aelodau na chlercod o 21 o’r 40 Cyngor Tref a Chymuned ar Ynys Môn fynychu’r sesiynau hyfforddiant a gynigiwyd. Er hynny, roedd 1 Cynghorydd Sir wedi mynychu yn ei rôl fel Cynghorydd Cymuned, ond nid yw’n eglur pa Gyngor Cymuned yr oedd yn ei gynrychioli.

## 5. HYFFORDDIANT BLAENOROL A GYNIGIWYD

Trefnwyd Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2022 (yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022). O’r 90 lle oedd ar gael, roedd 48 o bobl wedi cofrestru a mynychodd 37 yr hyfforddiant. Ni wnaeth Aelodau na Chlercod o 29 o’r 40 Cyngor Tref a Chymuned fynychu’r sesiynau hyfforddiant a gynigiwyd.

Roedd yr hyfforddiant diweddaru yn Hydref 2024 yn rhagori ychydig ar y niferoedd hynny. Er hynny, unwaith eto nid oedd bron hanner y Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn wedi’u cynrychioli yn y sesiynau hyfforddiant diweddar hyn.

Mae'r 20 Cyngor sydd heb gael cynrychiolydd yn y sesiwn hyfforddi yn Hydref 2022 nac yn y sesiynau hyfforddi yn Hydref 2024 wedi cael eu nodi, wedi eu lliwio mewn llwyd, ar y tabl yn **Atodiad 1**.

## 6. A YW HYFFORDDIANT AR Y COD YN OFYNNOL?

Er bod y Pwyllgor Safonau’n debygol o ystyried bod mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn arfer dda, nid oes gofyn statudol ar Gynghorwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar y Cod. Y gofyn statudol yw bod y Pwyllgor Safonau’n sicrhau bod hyfforddiant ar ddarpariaethau’r Cod Ymddygiad ar gael i Gynghorwyr.

Bydd y Pwyllgor Safonau’n ymwybodol bod y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys gofyn sydd wedi ei fabwysiadu’n lleol (nid yw wedi ei gynnwys yn y Cod statudol) bod aelodau’n mynychu sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn chwe mis o gael eu hethol –

> *Rhaid i chi fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y cod ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i’r Cyngor Sir am y tro cyntaf a’r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu’r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol*. [Paragraff 4(e)]

Byddai methu â chydymffurfio â’r gofyn hwn yn golygu y gallai cwyn gael ei gwneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn honni bod aelod wedi torri’r Cod Ymddygiad.

Fodd bynnag, bydd bob Cynghorydd Tref a Chymuned yn ddarostyngedig i’r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan ei Gyngor Tref neu Gymuned perthnasol, ac yn ôl pob tebyg, ni fyddai’r Cod hwnnw’n cynnwys gofyniad o’r fath i fynychu hyfforddiant.

## 7. BUDDION HYFFORDDIANT AR Y COD YMDDYGIAD I AELODAU

Mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn fater sydd wedi ei godi gan y Pwyllgor Safonau mewn adolygiadau blaenorol o Gynghorau Tref a Chymuned; mae'r Pwyllgor Safonau wedi annog Cynghorau i ystyried gofynion hyfforddiant eu haelodau, yn arbennig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

Mae mynychu hyfforddiant o'r fath yn cynorthwyo Cynghorwyr drwy ddarparu gwybodaeth ar gynnwys y Cod Ymddygiad a sut mae'n effeithio arnynt yn eu rôl fel Cynghorwyr ac yn eu bywydau personol; mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt dderbyn gwybodaeth ymarferol a gofyn cwestiynau.

Petai Cynghorwyr yn wynebu cwyn am dorri'r Cod Ymddygiad, byddai methu â mynychu hyfforddiant ar y Cod yn cael ei ystyried fel ffactor gwaethygol pan fyddai'r Pwyllgor Safonau / Panel Dyfarnu Cymru yn trafod gosod cosb [gweler y Canllaw ar Gosbau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan Banel Dyfarnu Cymru].

Nodir hefyd ei bod yn ofynnol i Gynghorau Cymuned greu cynllun hyfforddiant blynyddol ar gyfer ei Gynghorwyr a'i staff (o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Er nad oes rhaid cynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn y cynllun hyfforddiant hwn, mae'n debygol y byddai'n cael ei gynnwys, neu o leiaf byddai ei gynnwys yn cael ei ystyried.

## 8. ARGYMHELLION

A. Bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac **Atodiad 1**, ac, yn benodol, y wybodaeth ynghylch (a) nifer y rhai a fynychodd y sesiynau hyfforddiant a (b) nifer y Cynghorau Tref a Chymuned nad oedd ganddynt yr un cynrychiolydd ar y sesiynau hyfforddiant.

| | **Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council** | **Nifer yr unigolion wnaeth gofrestru / Number of registered individuals** | **Nifer yr unigolion a fynychodd / Number of attendees** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymuned **Aberffraw** Community Council | 3 | 1 |
| 2 | Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | 1 | 0 |
| 3 | Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | 4 | 4 |
| 4 | Cyngor Cymuned **Bodedern** Community Council | 0 | 0 |
| 5 | Cyngor Cymuned **Bodffordd** Community Council | 0 | 0 |
| 6 | Cyngor Cymuned **Bodorgan** Community Council | 0 | 0 |
| 7 | Cyngor Cymuned **Bryngwran** Community Council | 0 | 0 |
| 8 | Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | 2 | 1 |
| 9 | Cyngor Cymuned **Bro Cwm Cadnant** Community Council | 3 | 3 |
| 10 | Cyngor Cymuned **Bro Cylch y Garn** Community Council | 0 | 0 |
| 11 | Cyngor Cymuned **Llanbadrig** Community Council | 0 | 0 |
| 12 | Cyngor Cymuned **Llanddaniel-Fab** Community Council | 0 | 0 |
| 13 | Cyngor Cymuned **Llanddona** Community Council | 1 | 1 |
| 14 | Cyngor Cymuned **Llanddyfnan** Community Council | 0 | 0 |
| 15 | Cyngor Cymuned **Llaneilian** Community Council | 3 | 3 |
| 16 | Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | 1 | 1 |
| 17 | Cyngor Cymuned **Llaneugrad** Community Council | 0 | 0 |
| 18 | Cyngor Cymuned **Llanfachraeth** Community Council | 2 | 2 |
| 19 | Cyngor Cymuned **Llanfaelog**Community Council | 0 | 0 |
| 20 | Cyngor Cymuned **Llanfaethlu** Community Council | 0 | 0 |
| 21 | Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | 4 | 3 |
| 22 | Cyngor Cymuned **Llanfair yn Neubwll** Community Council | 1 | 1 |
| 23 | Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | 6 | 4 |
| 24 | Cyngor Cymuned **Llanfihangelesceifiog** Community Council | 4 | 3 |
| 25 | Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | 4 | 4 |
| 26 | Cyngor Cymuned **Llangoed a Phenmon / Llangoed and Penmon** Community Council | 8 | 7 |
| 27 | Cyngor Cymuned **Llangristiolus** Community Council | 2 | 1 |
| 28 | Cyngor Cymuned **Llanidan** Community Council | 0 | 0 |
| 29 | Cyngor Cymuned **Mechell** Community Council | 1 | 0 |
| 30 | Cyngor Cymuned **Moelfre** Community Council | 1 | 0 |
| 31 | Cyngor Cymuned **Penmynydd a Star / Penmynydd and Star** Community Council | 0 | 0 |
| 32 | Cyngor Cymuned **Pentraeth** Community Council | 5 | 3 |
| 33 | Cyngor Tref **Porthaethwy / Menai Bridge** Town Council | 3 | 3 |
| 34 | Cyngor Cymuned **Rhoscolyn** Community Council | 1 | 1 |
| 35 | Cyngor Cymuned **Rhosybol** Community Council | 0 | 0 |
| 36 | Cyngor **Rhosyr** Council | 0 | 0 |
| 37 | Cyngor Bro **Trearddur** Community Council | 0 | 0 |
| 38 | Cyngor Cymuned **Tref Alaw** Community Council | 1 | 0 |
| 39 | Cyngor Cymuned **Bro Trewalchmai** Community Council | 0 | 0 |
| 40 | Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | 3 | 1 |
| | Cynghorwyr Sir / County Councillors | 2 | 1 |
| | **CYFANSWM / TOTAL** | **66** | **48** |

CC-022335-MY/865470

This page is intentionally left blank

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

**Cwynion am ymddygiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) lle cafodd hysbysiadau o benderfyniadau eu cyflwyno i'r Cyngor yn ystod chwarter 4 2024/2025**

**Conduct Complaints to the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) where decision notices have been issued to the Council during quarter 4 of 2024/2025**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y prawf - The test</td></tr>
<tr><td>Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd:<br><br>Mae disgwyliad rhesymol i'r Pwyllgor Safonau fod yn dryloyw mewn perthynas â'r materion a drafodir ganddo.<br><br>Mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried adroddiadau mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Bydd yr adroddiad fel arfer yn ddienw ac yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Safonau er mwyn adnabod lefelau ac unrhyw dueddiadau sy'n codi. Mae hyn yn parhau i gael ei rannu â'r Pwyllgor yn gyhoeddus (Eitem 5 ar agenda'r cyfarfod hwn).<br><br>There is a public interest in disclosure as:<br><br>The business of the Standards Committee is connected with a reasonable expectation of transparency in respect of the matters discussed.<br><br>The Standards Committee considers reports in relation to the complaints received by the Public Services Ombudsman for Wales for both County Councillors and Town and Community Councillors. The report is usually anonymised and is shared with the Standards Committee to identify levels and any trends arising. This continues to be shared with the Committee publicly (agenda item 5 for this meeting).</td><td>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion penodol ac mae'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolion hyn.<br><br>Mae budd i'r cyhoedd o beidio â datgelu trwy osgoi'r tebygolrwydd y byddai datgelu'n arwain at adnabod yr unigolion, neu'n arwain at wneud datgeliad am unigolion mewn modd a fyddai'n groes i'r darpariaethau peidio â datgelu yn Neddf Diogelu Data y DU 2018.<br><br>Mae cyfarwyddyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth anfon y Rhybudd Penderfyniad yn nodi gellir ei rannu gyda'r Pwyllgor Safonau'n breifat.<br><br>The public interest in not disclosing is:<br><br>The report contains information that relates to particular individuals and is likely to reveal the identity of an individual.<br><br>The public interest in not disclosing is served by averting the likelihood that disclosure would result in the identification of individuals or result in the disclosure about individuals in a way that would breach the non-disclosure provisions of the UK Data Protection Act 2018.<br><br>The instruction from the Public Services Ombudsman for Wales when sending the Decision Notice details that it may be shared with the Standards Committee privately.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad – Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**PROSES APWYNTIO AELODAU ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

**APPOINTMENTS PROCESS FOR INDEPENDENT MEMBERS TO SERVE ON THE STANDARDS COMMITTEE**

| Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>**Nid mater ar gyfer y Pwyllgor Safonau yw penodi aelodau annibynnol ar y Pwyllgor; gwneir y gwaith hwn gan y Panel Dethol penodedig, sy'n cynnwys aelod annibynnol, cynrychiolydd o'r cynghorau tref a chymuned lleol a thri aelod etholedig o'r Cyngor Sir (ar sail cydbwysedd gwleidyddol). Fodd bynnag, mae gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau brofiad o weithredu a chredir byddai'n ddefnyddiol petaent yn cael cyfle i drafod y broses recriwtio, sy'n cynnwys pa elfennau fyddai'n ddefnyddiol mewn unrhyw gyfweliad, gyda'r bwriad o gryfhau'r broses a ddilynir yn lleol. Bwriedir rhannu adborth y Pwyllgor Safonau gyda'r Panel Dethol maes o law. Mae trafodaethau'r Panel Dethol yn gyffredinol yn gyhoeddus.**<br><br>**Mae angen tryloywder wrth benodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau oherwydd y rôl arwyddocaol sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant ac ymddygiad cynghorwyr sir etholedig a chynghorwyr y cynghorau tref a chymuned**.<br><br>The appointment of independent members to the Standards Committee is not a matter for the Committee; this work is done by the appointed Selection Panel, which includes an independent member, a local town and community council representative and three elected members from the County Council (based on political balance). However, independent members of the Standards Committee have experience in its operation, and it is believed that it would be useful for them to have an opportunity to discuss the recruitment process, including which elements would be useful in any interview, with the intention of strengthening the process undertaken locally. The Standards Committee's feedback will be shared with the Selection Panel in due course. The Selection Panel's discussions are generally held in public.<br><br>There is a requirement for transparency in the | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>**Trafodaeth yn unig a geir yma; gwneir argymhellion gan y Pwyllgor Safonau i'r Panel Dethol ond nid oes penderfyniad yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Safonau. Bydd y materion a gaiff eu trafod yn destun penderfyniad gan y Panel Dethol maes o law. Y Cyngor llawn sy'n penodi'r aelod annibynnol, ar sail argymhelliad y Panel Dethol.**<br><br>**O fewn yr eitem hon, bydd y broses recriwtio, sy'n cynnwys ystyried pynciau neu gwestiynnau cyfweliad addas, yn cael eu trafod. Er mwyn sicrhau proses recriwtio lwyddiannus, mae'n rhesymol fod y broses ac unrhyw ofynion a chwestiynau cyfweliad yn cael eu holi ar y pryd er mwyn i'r ymgeisydd gorau gael eu dewis. Mae disgwyliad rhesymol fod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg o fewn proses recriwtio. Byddai unrhyw ymgeisydd sydd efo manylion ymlaen llaw yn cael mantais dros ymgeisydd nad yw'n gwybod y cwestiynau ymlaen llaw. Mae'n bosib y gallai ymgeisydd aflwyddiannus gymryd camau petai'n dod i'r amlwg eu bod nhw wedi bod o dan anfantais oherwydd nad oeddent yn ymwybodol o'r broses yn llawn ymlaen llaw.**<br><br>**Mae'n rhesymol disgwyl y gallai cyhoeddi manylion cychwynnol, neu drafod cwestiynau cyfweliad posib, yn hollol gyhoeddus olygu y byddai'r broses recriwtio yn cael ei handwyo.**<br><br>**Bydd llawer o'r broses recriwtio gaiff ei gynnal gan y Panel Dethol yn y parth cyhoeddus. Unwaith bydd y cyfweliadau wedi eu cynnal, bydd manylion am y penodiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi.**<br><br>This will be a discussion only; with recommendations being made by the Standards Committee to the Selection Panel. No decision will be made by the Standards Committee. The issues under discussion will be decided by the Selection Panel in due course. The independent member will be appointed by full |

| | |
|---|---|
| appointment of co-opted members to the Standards Committee, given the significant role played by the Committee in relation to governance and conduct of elected county councillors and town and community councillors. | Council, based on the Selection Panel's recommendation.<br><br>Within this item, the recruitment process, including the consideration of appropriate interview topics or questions, will be discussed. So as to ensure a successful recruitment process, it is reasonable for the process and any requirements and interview questions to be revealed at the time so that the best applicant is chosen. There is a reasonable expectation that each applicant is treated fairly within a recruitment process. Any applicant with previous knowledge before the interview itself would have an advantage over any applicant who does not have previous knowledge of the questions. It is possible for an unsuccessful applicant to take further action should it become apparent that they have been disadvantaged by not having previous knowledge of the full process beforehand.<br><br>It is reasonable to expect that publishing the initial details or discussing possible interview questions publicly could result in the recruitment process being harmed.<br><br>Much of the recruitment process undertaken by the Selection Panel will be in the public domain. Once interviews have been conducted, the details of the final appointments will be made public. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank